NEWYDDLEN CWLWM – TYMOR YR HYDREF 2020

# cwlwm









Croeso i Newyddlen Cwlwm, Tymor yr Hydref. Mae pandemig Covid-19 wedi bod yn gyfnod anodd a heriol i bawb, yn enwedig i'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae. Yn ystod amgylchiadau heriol, a chanllawiau cyfnewidiol dros y misoedd diwethaf, hoffai partneriaid Cwlwm longyfarch a diolch i'r sector, i rai am ailagor eu darpariaethau ac i eraill am barhau ar agor. Mae'r newyddlen yma'n amlinellu ymdrech, awydd ac arloesedd y sector a'r hyn a lwyddodd i'w gyflawni. Mae'r sector wedi parhau i symud ymlaen ac mae plant a theuluoedd ledled Cymru wedi elwa ar y cymorth amrywiol a gynigiwyd gan Cwlwm. Mae Cwlwm yn parhau yma i'ch cefnogi.

mudiad meithrin – arbenigwyr y blynyddoedd cynnar – Welsh early years specialists
www.meithrin.cymru

Clybiau Plant Cymru – Kids' Clubs
www.clybiauplantcymru.org

Early Years Wales – Blynyddoedd Cynnar Cymru
earlyyears.wales

pacey | CYMRU
www.pacey.org.uk

cwlwm
www.cwlwm.org.uk

NDNA – National Day Nurseries Association – *Brighter thinking for early years
www.ndna.org.uk

# Mudiad Meithrin

## Meithrinfeydd Cymru Cyf: Meithrinfa Camau Bach, Garth Olwg a Medra

Bu'r cyfnod cau yn sgil sefyllfa'r feirws corona yn un heriol i bawb ym myd Gofal Plant a Chwarae. Bu'n gyfnod pryderus o ran dal y feirws a gorfod cau yn sgil hynny a'r heriau busnes a wynebwyd yn rheoli'r effeithiau ariannol a'r risg o niferoedd is o deuluoedd yn defnyddio gwasanaethau gofal plant oedd yn medru parhau ar agor.

Erbyn hyn mae 3 meithrinfa Meithrinfeydd Cymru Cyf wedi ail agor a phob dim wedi ac yn parhau i redeg yn hwylus.



Bu'r cyfnod o baratoi cyn agor y meithrinfeydd yn un prysur iawn i'r tîm rheoli. Creuwyd a diweddarwyd nifer fawr o ddogfennau angenrheidiol gan gynnwys Polisi ail agor Covid19, asesiadau risg canllawiau glanhau a hylendid a gweithdrefnau amrywiol eraill.

Rhannwyd y dogfennau gyda staff a chynhaliwyd sesiynau hyfforddiant iddynt (dros 100 o staff) dros zoom a bu hyn yn werthfawr  er mwyn trafod yr holl newidiadau a chael cyfle i godi unrhyw bryderon am ddychwelyd i'r gweithle. Bu'n gyfle i dawelu meddyliau a magu ffydd.

Rhannwyd dogfennau gyda rhieni hefyd er mwyn sicrhau bod pawb yn deall ein rheolau a gweithdrefnau newydd a'r gweithdrefnau oedd mewn lle i ddiogelu eu plant, nhw fel rhieni a'n staff.

Roedd yr ymateb yn un cefnogol, a'r clip fideo a rhannwyd dros Facebook a Trydar yn dangos y feithrinfa ar ei newydd wedd wedi darbwyllo meddyliau pawb am ddanfon eu plant yn ôl atom. Gwelwyd hyder ein rhieni ynddom ni pan dychwelodd nifer o blant yn yr wythnosau cyntaf ac erbyn hyn tri mis ar ôl ail agor rydym bron yn ôl i'n capasiti llawn arferol cyn y cyfnod clo.

Derbyniodd rhieni y newidiadau a'r gweithdrefnau newydd wrth adael a chasglu'r plant a'r angen i ymbellhau er mwyn diogelu pawb. Nid yw drysau'r meithrinfeydd ar agor iddynt ymweld bellach dros dro ond er hyn mae pawb wedi parchu'r newidiadau yma ac yn parhau i gadw at y rheolau. Rhannwyd hefyd ar dudalen Facebook – lluniau o ystafelloedd y meithrinfeydd wedi eu cyfnewid/ail osod er mwyn cadw at reolau diogelu ac yn wythnosol rhannwyd lluniau amrywiol o'r plant yn brysur chwarae ac yn ymgymryd â gweithgareddau. Mewn cyfnod ansicr mae cyfathrebu'n bwysig ac mae rhieni wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr.



Gan nad yw rhieni'n gallu cael mynediad i'r adeilad ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r haint, mae staff wedi bod yn cynnal cyfarfodydd dros zoom a facetime gyda rhieni. Mae hwn yn sicrhau bod cyswllt cyson a chyfathrebu effeithiol yn digwydd a bod y berthynas agos yn parhau rhwng y meithrinfeydd a'r teuluoedd i gyd. Pan fydd y cyfyngiadau'n llacio mwy mi fyddwn yn caniatáu i rieni ymweld â'r adeilad fel ag yr oedd cyn i'r cyfnod clo.



Mae'r plant wedi ymgartrefu yn ôl yn dda ac wedi setlo yn syth i fywyd y feithrinfa er y newid. Maent wedi derbyn y newidiadau o fewn yr ystafell, i'r drefn ddyddiol a'r gweithgareddau heb unrhyw rwystrau nag anawsterau. Mae'r canllawiau manwl wedi hwyluso unrhyw heriau tebygol rhag godi. Mae'r plant yn chwarae yn rheolaidd yn yr awyr agored felly nid oes newid mawr wedi bod fan hyn ac mae'r cyfleoedd a phrofiadau dysgu a gynigir yn parhau'r un mor effeithiol er bod man newidiadau i'r adnoddau ac offer a gynigir. Mae'r weithdrefn fwyaf ddiweddar o osod y plant fesul ystafell yn hytrach na mewn nythod o 8 wedi hwyluso rhediad yr ystafell yn fawr ac yn llawer mwy ymarferol i'r plant a'r staff.


Mae staff wedi ymrwymo i'r rheolau newydd yn gadarn a phob un wedi sicrhau gweithredu'r rhain er lles a diogelwch pawb yn y feithrinfa. Mae staff wedi cymryd y

weithdrefn golchi dwylo a glanhau o ddifri ac yn diheintio'n rheolaidd a golchi dwylo droeon yn ystod y dydd, cyn ac ar ôl pob gweithgaredd, amser tŷ bach, cyn ac ar ôl bwyd a chwarae tu allan. Mae wedi bod yn her ar adegau i staffio'r meithrinfeydd gan sicrhau bod gennym staff ddigonol gan fod nifer o'n staff yn parhau i ynysu oherwydd beichiogrwydd neu resymau iechyd dwys ond rydym wedi dod dros hyn wrth benodi staff banc ychwanegol.

Un o'r heriau anoddaf a wynebwyd ac rydym yn dal i wynebu yw – atal rhieni newydd rhag ymweld â'r feithrinfeydd. Mae hyn er mwyn rheoli cyswllt rhwng staff a phlant y meithrinfeydd ar hyn o bryd. Rydym wedi groesi hwn drwy Rheolwyr y meithrinfeydd yn cynnal sesiwn 'facebook messenger' a'u tywys o amgylch yr ystafelloedd a'r Feithrinfa yn rhithiol. Mae'r sesiwn dal yn cynnig y cyfle iddynt siarad â staff, ynghyd a gweld y lleoliad, a'r adborth gan rieni yn gadarnhaol iawn.

Dros y cyfnod yma nid ydym yn mynd a'r plant am dro i leoliadau penodol agos e.e. y parc, llyfrgell, siopa oherwydd risg y feirws. Ond, maent wedi manteisio mwy ar yr ardal allanol a'r ardd sensori o fewn y lleoliadau a hynny wedi hwyluso gweithgareddau allanol.





Mae nifer o nosweithiau cymdeithasol wedi cael eu gohirio e.e. noson agored, noson codi arian a mawr obeithiwn y byddwn yn medru ail gydio yn rhain yn y dyfodol agos.

Gohurwyd 'Seremoni Graddio' y plant eleni. Mae hwn yn ddathliad blynyddol lle gwahoddir rhieni i mewn er mwyn dathlu a ffarwelio gyda'r plant sydd yn ein gadael i fynd i'r ysgol gynradd. Bwriadwn gynnal parti i'r plant hynny pan fydd modd i ni wneud.

Braf yw nodi ein bod wedi derbyn nifer fawr o deuluoedd newydd yn y meithrinfeydd, mae hyn am fod rhieni angen gofal plant i ddychwelyd i'r gwaith a bod eu gwasanaeth arferol heb agor. Mae'r plant a rhieni wedi ymgartrefu yn dda iawn a braf yw nodi eu bod nhw'n bwriadu parhau gyda ni am weddill cyfnod gofal plant y plentyn.

Er yn gyfnod anodd, mae'r cyfnod clo wedi'n gwthio ni i feddwl yn greadigol a herio'n hunian i drio pethau o'r newydd. Pe byddai rhywun wedi cynnig y newidiadau yma i ni llynedd, buaswn yn benderfynol o ddadlau nad oedd modd gweithredu yn y fath ffordd, ond mae'r pandemig wedi gorfodi hynny, gyda rhai elfennau er gwell. Mawr obeithiwn wrth gwrs, y bydd mwy o gyfyngiadau'n llacio yn fuan ond nid yw'r cyfnod wedi ein hatal rhag ail gydio yn holl fwrlwm arferol y meithrinfeydd er ein bod yn cynnwys ein rhieni a'r gymuned ym mywyd ein lleoliadau o bell!

# Cylch Meithrin Ffrindiau Bach yr Enfys

Fel profodd nifer o leoliadau gofal plant eraill roedd y cyfnod cau yn sgil y pandemig yn gyfnod ansicr i ni, ein plant, rhieni/gwarchodwyr a'n staff.

Fuodd yn her i ennyn hyder pobl wrth ail agor y feithrinfa. Er mwyn lleihau pryderon danfonwyd holiadur yn ceisio barn rhieni/gwarchodwyr ar sut deimlant ar ddanfon eu plant yn ôl i'r feithrinfa. Gofynnwyd i staff gwblhau holiadur yn amlinellu eu pryderon hwythau wrth ddychwelyd i'r gwaith. Ystyriwyd yr ymatebion yn ofalus, ac yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru a pholisi COVID Mudiad Meithrin, rhoddwyd mesurau ar waith i leihau'r risg.

Er fuodd Ffrindiau Bach yr Enfys ar gau am gyfnod byr, parhaodd y plant yn ganolbwynt i ni. Arhosodd staff mewn cyswllt â rhieni a phlant drwy gydol y cyfnod clo drwy negeseuon fideo, gan alluogi'r plant i weld eu gweithwyr allweddol, ac i glywed rhywfaint o Gymraeg. Gan ddefnyddio ffonau eu rhieni danfonodd sawl plentyn negeseuon yn ymateb i'r staff. Cynigwyd syniadau ar gyfer gweithgareddau fyddai'n addas i deuluoedd wneud gartref.



Wrth i ni baratoi i ail agor danfonasom Deithiau Rhithwir at ddarpar rieni a oedd yn caniatáu i staff cyflwyno ei hunain i rieni, ac i blant 'gwrdd' â'r staff am y tro cyntaf. Gwnaed hyn er mwyn helpu gyda'r proses ymgartrefu ac i helpu'r plant deall beth ddylent ddisgwyl ar gychwyn yn y feithrinfa.




Rhoddwyd gweithdrefnau newydd ar waith yn unol â Pholisi COVID Mudiad Meithrin, ynghyd ag Asesiad Risk trylwyr a rhennir gyda rhieni/gwarchodwyr. Rydym yn glanhau teganau ac arwynebau dwywaith bob dydd, gan dalu sylw arbennig i arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml.

Rydym wedi cyflwyno amseroedd gollwng a chodi cyfnodol er mwyn lleihau cyswllt. Bellach, rydym yn cwrdd â rhieni wrth y drws ac yn profi tymheredd y plant cyn iddynt ddod i'r adeilad.





Mae'r plant yn golchi dwylo wrth gyrraedd y feithrinfa, ac mae'r plant wedi dysgu cân golchi dwylo i hwyluso hyn. Dim ond un ymwelydd caniateir ar y tro, a thrwy apwyntiad yn unig.

Gan ein bod wedi'n lleoli drws nesaf i'r ysgol gynradd Gymraeg lleol rydym wedi gweithio'n agos â'r ysgol i sicrhau ein bod yn rhoi sylw i asesiadau risg y ddau leoliad.

Mae plant yn treulio cymaint o amser ac sy'n bosib yn yr awyr agored. Rydym wedi rhannu'r ystafelloedd gofal plant i ardaloedd llai, ac mae rheolau hylendid cadarn ar waith gennym.  Lle'n bosib, cedwir grwpiau oedran mewn gofodau ar wahân, ac mae amseroedd chwarae ar gyfnodau gwahanol. Rydym yn diheintio offer chwarae tu allan ar ddiwedd pob sesiwn.

Bach oedd y nifer o rieni ddewisodd peidio danfon eu plant yn ôl atom pan agorwyd y drysau unwaith eto ar Fedi'r 1af. Erbyn hyn mae ein holl blant wedi dychwelyd atom, ynghyd â sawl plentyn newydd, ac mae pawb wedi setlo i'r drefn newydd.

Mae croesawu'r plant yn ôl wedi codi'n calonnau, ac mae'r staff wrth eu boddau yn gweld y plant yn rhedeg i mewn i'r lleoliad (ac ar adegau yn anfodlon mynd adref!)

**Mae'n dda fod yn ôl!**

# Negeseuon o ddiolch

**Rhai o'r negeseuon o ddiolch mae Mudiad Meithrin wedi derbyn gan ddarpariaethau a rhieni dros y misoedd diwethaf:**

Annwyl Staff Mudiad Meithrin

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth, mae cael y Mudiad yn gefn i ni trwy'r helynt yma wedi bod o fudd amrhisiadwy. Diolch i chi gyd.

Cadwch yn ddiogel

**Dwynwen, Helen a holl staff Meithrinfa Y Dyfodol, Cellan**

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn edrych ymlaen at ail agor ddydd Llun. Hoffem ddiolch o waelod calon i holl staff Mudiad Meithrin am y gefnogaeth anhygoel rydym wedi ei dderbyn dros y misoedd diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth yn fawr.

Diolch yn fawr i chithau oll yn Mudiad am weithio mor galed a rhoi'r gwybodaeth diweddara cywir i ni allan o'r holl Ganllawiau Covid.

**Ar ran Cylch Meithrin Potrobert.**

Pnawn da

Ar ran Gylch Meithrin Talysarn fe hoffwn ddiolch i chi am yr holl gymorth, ebyst ag rŵan aelodaeth am ddim am y flwyddyn. Mae hyn yn help ariannol mawr iawn i ni drwy yr amser ansefydlog ma.

Felly diolch o galon

Cofion gorau

**Cylch Meithrin Talysarn**

## Annwyl Weinidog

Mae Cylch Meithrin y Felinheli yn dymuno nodi'r cyngor a'r cymorth eithriadol y mae wedi'u derbyn gan Mudiad Meithrin wrth i ni lywio'r amser ansicr a heriol hwn. Mae Mudiad Meithrin, ers dechrau'r pandemig hwn, wedi darpar diweddariadau dyddiol clir ac addysgol, mynediad hawdd at Swyddog Rhanbarthol gwybodus a galluog a chyfoeth o adnoddau ymarferol. Mae'r pecyn yma wedi galluogi gwasanaeth i fod mewn sefyllfa gref i addasu'r i'r "Normal Newydd".

Rydym yn cymeradwyo Mudiad Meithrin a'i staff am ei berfformiad eithriadol.

Yr eiddoch yn gywir

**Anna Mihangel - Ysgrifenyddes Cylch Meithrin y Felinheli**

# CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUB

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

## Clwb Ôl-ysgol Cornist Park, Ffordd Yr Ysgol, Y Fflint CH6 5ET

### Ynghylch Clwb Allysgol, Clwb Ôl-ysgol Cornist Park

Mae Clwb Ôl-ysgol Cornist Park yn darparu gofal plant ôl-ysgol i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cornist Park. Mae gan Ysgol Gynradd Cornist Park tua 330 o ddisgyblion ar eu rhestr, rhwng 3 ac 11 blwydd oed. Mae'r clwb ôl-ysgol yn boblogaidd iawn; mae wedi ei leoli yn neuadd yr ysgol.

### Y gefnogaeth a ddarparwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Yn dilyn ymweliad â chlwb ôl-ysgol Cornist Park, Awdurdod Lleol Sir y Fflint, gan y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, fe'u cynghorwyd i ymuno â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs felaelodau. Ymwelodd Sandra Welsby, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Gogledd Cymru â'r clwb ar ddiwedd Ionawr 2020. Rhoddodd Sandra gefnogaeth i'r clwb gyda hyfforddiant i'r staff, a gwnaeth hefyd drafod cynllun o ran strwythur y clwb. Y cynllun oedd i'r clwb recriwtio rhieni a phobl o'r gymuned leol i ddod yn Bwyllgor i gefnogi'r clwb wrth iddynt symud ymlaen. Byddai cyfarfod â'r Pwyllgor newydd yn cael ei drefnu gyda Sandra i drafod Llywodraethiad y clwb yn y dyfodol a chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Ond ym Mawrth 2020 daeth cyfnod clo pandemig Covid-19, a chaeodd y clwb a'r clwb ôl-ysgol.

### Manteision y gefnogaeth

**Kate Blythin, Rheolwr Busnes yr Ysgol**

Yn ystod pandemig Covid-19 roedd modd i mi gadw mewn cysylltiad â Sandra, sydd wedi bod o help aruthrol i mi gan roi cyngor ac arweiniad ym mhob peth ynghylch Clwb Ôl-ysgol! Rwyf i'n newydd i'r rôl, Rheolwr Busnes Ysgol yma yn ysgol Cornist Park; mae llawer o bethau'n wahanol iawn i'm profiad blaenorol o waith, ac yn peri rhywfaint o ddychryn!

Mae Sandra wedi bod yn llawer o help gyda'r arweiniad ar gael ein clwb wedi ei gofrestru, a sicrhau bod unrhyw ariannu sydd ar gael, boed i'r clwb ei hun neu hyfforddiant y staff, yn hysbys i ni. Roedd arweiniad Sandra o ran saib swydd yn ystod cyfnod clo cenedlaethol Covid-19 yn gymorth arbennig. Mae pob darn o wybodaeth a help gan Sandra bob tro'n berthnasol ac yn gryno, ac mae bob tro'n gyflym yn ymateb i'm he-byst!

Edrychaf ymlaen at weithio gyda Sandra yn y dyfodol.

# Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan, 23a Bridgend Road, Llanharan. RhCT. CF72 9RD

## Ynghylch Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan



Wedi ei leoli yng nghanol cymuned yn RhCT sy'n ffynnu ac yn tyfu'n gyson, mae Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan yn defnyddio nifer o wasanaethau ar gyfer y gymuned gyfan. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys clybiau allysgol sy'n rhedeg o ddwy ysgol leol, a chlwb hwyliau; hefyd mae gwasanaethau cynlluniau chwarae mynediad-agored yn rhedeg yn lleol yn y gymdogaeth. Yn ychwanegol at y gwasanaethau hyn maent hefyd yn trefnu ac yn darparu dosbarthiadau dysgu i oedolion, meithrinfa ar y safle, man cyn-ysgol sy'n cael ei redeg o ganolfan gymunedol leol, clwb i rai dros 50 a chaffi lleol sydd ar gael i bawb.

## Y gefnogaeth a ddarparir gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Mae'r Prosiect yma'n aelodau o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ac mae yn aml yn mynd i'r wefan ac at e-byst am gefnogaeth ac i gael y diweddaraf o ran arweiniad ac unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud. Mae ganddynt gysylltiadau cryf hefyd gyda'r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, a'r Swyddogion Hyfforddi sy'n byw yn lleol, ac mae'r plant yn cyrchu ac yn cael budd o'r gwasanaethau a gynigir gan y lleoliad. Unrhyw gwestiwn sydd gennym ac mae rhywun bob tro ar ben arall y ffôn neu e-bost, ac maent yn wirioneddol gyflym yn dod o hyd i ddatrysiadau ac atebion i ni.

## Manteision y gefnogaeth

Ben Thomas: Swyddog Datblygu Chwarae, Ieuenctid a'r Gymuned

Rhian Symons: Cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi bod yn help mawr tu hwnt, yn arbennig yn ystod y 6mis olaf, gyda'r holl dempledi asesu risg, ebyst a chysylltiadau rheolaidd, ac arweiniad a'r wybodaeth ddiweddaraf a oedd yn cael ei hanfon drwy ebyst, yn ogystal â bod ar gael drwy eu cyfryngau cymdeithasol. Maent bob tro wedi bod ar ben arall y ffôn os ydym wedi bod angen unrhyw beth, neu os oedd gennym unrhyw gwestiynau. Buont hefyd yn gyflym i gysylltu â ni i ateb ymholiadau a'n sicrhau bod y mesurau yr oeddem yn eu rhoi yn eu lle yn gywir, a chadarnhau'r mesurau diogelu y mae eto angen i'w rhoi yn eu lle. Beth bynnag fu ein cais, maen nhw wedi dod yn ôl atom a'n helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau, gan gynnig cefnogaeth amhrisiadwy i ni fel sefydliad. Roedd hyd yn oed y plant a wnaeth fynychu'r clwb gwyliau yn holi ynghylch y gweithdai ac yn dweud eu bod yn gweld eisiau'r swyddogion hyfforddi yn dod i mewn i gyflwyno arbrofion a gweithgareddau llawn hwyl.



## Clwb Plant Segontiwm, Ysgol Yr Hendre Ffordd Cae Phillips, Caernarfon LL55 2AT

### Ynghylch Clwb Allysgol, Clwb Plant Segontiwm

Agorodd Clwb Plant Segontiwm ym mis Mawrth 2012 ac mae wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ofalu am uchafswm o 30 o blant o dan 12 mlwydd oed. Rheolir y lleoliad gan Bwyllgor Rheoli Gwirfoddol sy'n goruchwylio'r holl benderfyniadau yn y lleoliad, ond mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yng ngofal rheolwr y lleoliad, Julie Edwards. Mae'r lleoliad y rhedeg Clwb Ôl-ysgol a Chlwb Gwyliau o neuadd yr ysgol.

- Mae'r plant yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn gwybod y caiff eu syniadau wrandawiad, a'u gwerthfawrogi.
- Mae gan y staff agwedd groesawgar a chyfeillgar ac maent yn gyson ac yn deg wrth reoli'r ymwneud rhwng y plant.
- Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae gan y plant gyfleoedd i fynd i iard yr ysgol i chwarae y tu allan.
- Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn ffordd briodol.
- Mae digon o le a chyfleusterau i fodloni anghenion y plant.

### Y gefnogaeth a ddarperir gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Cath yw'n Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant ers rhai blynyddoedd bellach ac rydym wedi datblygu perthynas waith dda iawn gyda hi. Rydym wedi dod i wybod, os bydd angen unrhyw beth arnom, ei bod hi bob tro yno gyda chynnig o gefnogaeth ac arweiniad. Yn ystod yr amserau digynsail o ganlyniad i Covid-19 roeddwn yn teimlo'n hyderus y gallwn ofyn i Cath am help o ran ysgrifennu asesiadau risg, a bu'n help gyda phryderon y staff o ran ynysu. Roedd Cath yn medru ateb fy holl gwestiynau ac anfon ataf ambell enghraifft o asesiad risg, a thempled yn syth wedi hynny.



### Manteision y gefnogaeth

Mae'r gefnogaeth yr wyf wedi ei chael gan Cath wedi bod y n rhagorol ac yn help mawr iawn bob tro; fodd bynnag bu'r mae'r gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn ystod pandemig Covid-19 wedi bod yn arbennig iawn, ac oherwydd y manteision a ddaeth o gefnogaeth Cath, roedd agor y clwb eto yn fater digon syml.

## Clwb Allysgol Twyn, Caerffili

**Becky Hall, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, De Ddwyrain Cymru**

### Ynghylch Clwb Allysgol Twyn

Mae Clwb Allysgol Twyn yn Lleoliad a Reolir yn Wirfoddol sy'n darparu Gofal Ôl-ysgol a Gwyliau ar gyfer y plant. Mae Clwb Ôl-ysgol y Twyn a'r Clwb Gwyliau'n darparu gofal plant ar gost isel, sy'n hwyliog ac yn ymgysylltiol, i blant Ysgol y Twyn, ac mae wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr, Amanda Hewer, a'i thîm, yn rhedeg Clwb Allysgol sy'n llwyddiannus ac yn brysur, un sydd wedi ei gofrestru i dderbyn 31 o blant.

Mae'r Clwb wedi bod yn destun balchder i Amanda erioed oherwydd ei allu i ddarparu Gofal Plant o ansawdd da i rieni ar gost isel iawn. Mae ei hangerdd dros y Clwb a'r plant y maent yn gofalu amdanynt yn eithriadol, a phrawf o hyn yw adolygiad gan riant ar eu tudalen Facebook, sy'n cynnig y sylw:

"Tîm gwych sy'n wirioneddol ofalgar o bob plentyn".

### Cefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs



Mae Clwb Allysgol Twyn wedi bod yn aelod o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ers iddo gychwyn, ac fe wnaethom gefnogi'r clwb i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol yn 2018. Daeth Amanda i gysylltiad â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ym mis Mehefin am gymorth gydag agor y Clwb Gwyliau yn wyneb yr anawsterau ynghylch Covids-19.

Ar sail cronfeydd wrth gefn a rhagolwg llif arian fe wnaethom drafod p'un ai i agor dros wyliau'r haf neu aros hyd fis Medi. Gyda'r angen wedi ei sefydlu ganddynt, a'u cronfeydd wrth gefn, y byddai'r Clwb Gwyliau'n bosibl. Cawsom drafodaeth hir ar sut i roi mesurau diogelu yn eu lle, creu swigod, a pha weithgareddau y gallent ddal i'w gwneud gyda'r plant gan fod yn Covid Ddiogel ar yr un pryd. Fe wnaethom edrych ar yr holl fesurau o ran rheoli haint, cadw cofnodion ac asesiadau risg. Anfonais atynt yrra holl adnoddau templed yr oedd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi eu cynhyrchu, yn cynnwys Gwaith Chwarae wedi Covid-19, a alluogodd y Lleoliad i weld pa bethau y gallent eu gwneud i sicrhau bod y plant yn dal i gael profiadau cyfoethog ar yr un pryd â chynnal safonau uchel o ran rheoli haint, a chan ddilyn yr Arweiniad ar Fesurau Diogelu.

Yn ystod y broses gynllunio bu Amanda'n fy niweddaru ar sut yr oeddent yn symud yn eu blaenau. Mewn un ohebiaeth dywedodd:

*"Gyda'ch arweiniad chi rydym wedi diweddaru'r polisïau sy'n cwmpasu pandemig Covid-19, ac rwyf yn y broses o lunio asesiad risg a fydd yn cwmpasu'r feirws. Felly amser prysur prysur.*

*Rwyf wedi edrych drwy'r daflen weithgareddau y gwnaethoch ei hanfon ata i a byddaf yn cwrdd gyda'r merched i drafod y gweithgareddau.*

*Diolch am eich cefnogaeth barhaus."*

Er mai dim ond wyth plentyn a allent eu cymryd i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r Canllawiau Mesurau Diogelu, roedd yn llwyddiant mawr, a'r plant yn mwynhau llawer o hwyl yn yr awyr agored.

**Fe wnaeth Amanda fy e-bostio pan wnaethant ailagor i ddweud wrtha i:**

*"Mae llawer o bethau'n digwydd yma, yn cynnwys crefftau a gweithgareddau y tu allan pan allwn ni. Diolch byth, mae'r tywydd wedi bod yn ddai ni.*

*Mae'r rhieni a'r plant wedi addasu'n dda i'n ffurf newydd ac mae pawb yn gytûn ac yn cadw'n gadarnhaol.*

*Diolch am eich holl gefnogaeth."*

**Cafodd y Clwb Gwyliau adborth ardderchog gan y rhieni:**

*"Diolch am ei wneud yn amgylchedd mor ddiogel a hwyliog i'r plant. Roedd Plentyn A yn gwbl wrth ei fodd, ac mae'n gobeithio dod yn ôl ar adeg hanner tymor mis Hydref. x"*

*"Diolch ferched, mae Plentyn B wedi cael cymaint o hwyl dros yr haf ac mae gwybod ei fod e yna yn saff ac yn hapus yn rhoi tawelwch meddwl i mi. Yn edrych ymlaen at y Clwb Allysgol. Diolch bawb. x"*

Pan gyhoeddwyd y Grant Darparwyr Gofal Plant ddiwedd Awst, roedd Amanda'n bresennol yn ein gweminar gefnogi, lle gwnaeth godi mater ynglŷn â'r cais ar-lein a ddarparwyd gan ei Hawdurdod Lleol. Codais y mater gyda'r Awdurdod Lleol, ac mae'n dda dweud iddyn nhw unioni'r sefyllfa. Rydym yn parhau i gynorthwyo'r Twyn gydag unrhyw ymholiadau a fydd gan Amanda.

**Manteision y gefnogaeth**

*"Mae'n rhaid i mi ddweud yn gwbl ones, Becky, eich bod chi, Clare, Janine ac aelodau eraill o staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi mynd yr ail filltir i gefnogi fy nghlwb, fel, dwi'n siŵr, eich bod wedi gwneud gydag eraill. Ry'ch chi ferched wedi bod yn achubiaeth i mi a bob tro ar ben arall y llinell i helpu a rhoi cefnogaeth pan oedd ei hangen yn ystod y cyfnod anodd yma, drwy roi help a chyngor fel 'roedd ei angen.*

*Dwi'n teimlo fy mod i wedi'ch gyrru chi i gyd i'r pen yn conan, eisiau'ch help a'ch gwybodaeth pan oedd eu hangen, a bod tro fe wnaethoch chi ateb y galw.*
*Rydym wedi bod gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs o'r dechrau'n deg. Nhw hefyd a roddodd help i mi sefydlu ein Clwb Gwyliau llwyddiannus tua 15 mlynedd yn ôl, ac maen nhw bob tro wedi bod yno i'n cefnogi pan oedd angen.*
*Alla i ddim diolch digon i chi i gyd, yn enwedig yn ystod y pandemig Covid-19 yma, am eich cefnogaeth.*
*Diolch am bopeth."*

**Amanda Hewer (Clwb Allysgol Y Twyn)**

**Clwb Ôl-ysgol a Chlwb Gwyliau Tywyn**

**Man cyfarfod ac Awdurdod Lleol: Ysgol Gynradd Tywyn, Castell-nedd Port Talbot**

Sefydlwyd Clwb Tywyn Kids' Club fro 10 mlynedd yn ôl gydag arweiniad Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Yn gwmni cofrestredig, mae'n darparu hyd at 24 o leoedd sydd wedi eu cofrestru gydag AGC, ac yn darparu'r Cynnig Gofal Plant yn ei Glwb Ôl-ysgol a'i Glwb Gwyliau.



***'Diolch am eich holl help a chefnogaeth; mae'n golygu llawer i fi a'm clwb, dwi ddim yn gwybod lle bydden ni hebddoch chi.' (Ms Diane Williams, Arweinydd Chwarae Tywyn Kids' Club: 11/06/2020)***

Caeodd Tywyn Kids' Club ym mis Mawrth ar ddechrau'r cyfnod clo. Roedd y gefnogaeth yn ystod yr adeg yma'n cynnwys arweiniad gyda gwybodaeth ar saib swyddi i staff ac ymddiriedolwyr. Wedi peth petruster cychwynnol o ran y cynllun gan rai aelodau o'r bwrdd, cytunwyd mai rhoi'r staff ar saib swydd drwy gyrchu'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws oedd yr unig ffordd y gallai'r lleoliad gadw'n ddiddyled dros y cyfnod, er gwaetha'r baich gwaith ychwanegol ar ymddiriedolwyr gwirfoddol a oedd eisoes wrthi'n ddygn. Rhoddwyd templedi i gynorthwyo wrth gyfrifo'r taliadau saib swydd ac anfonwyd allan y dyddiadau allweddol drwy ein sianelau cyfathrebu. Mae'n debygol na fyddai'r Clwb wedi gwneud cais am y rhaff achub hollbwysig hon pe na baem ar gael i'w cefnogi, gan hwyluso parhad yng nghynaliadwyedd y busnes bychan, lleol hwn.

Erbyn dechrau Mehefin daeth yn glir na fyddai'r Clwb yn agor ar gyfer gwyliau'r haf, ac y byddai'r clwb felly'n methu â fforddio'r tâl gwyliau a oedd yn ddyledus i'r staff ar ddiwedd yr haf, heb geisio ariannu pellach. Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd o'r Asesiad Gofal Plant Allysgol (rhestr wirio hunanasesu i Glybiau allu adlewyrchu ar bob

agwedd ar eu gwasanaeth), roedd modd i ni gael hyd i ariannu addas yn gyflym, a dod i benderfyniad ar eu cymhwysedd ar gyfer ail gam y Gronfa Cadernid Economaidd. (ERF). Gyda'n cefnogaeth ni, llwyddodd Tywyn Kids' Club i dderbyn £10,000. Roeddem yn hynod falch fod Tywyn wedi llwyddo i gael y canlyniad hwn yn ystod y fath ansicrwydd economaidd. Defnyddiwyd yr arian yma i dalu cyflogau pan oedd y lleoliad yn dal ar gau, ac i fod yn gefn i'w cadw'n ddiddyled wrth i'r clwb ailagor ac wrth i nifer y plant gynyddu'n raddol

Ymhlith y gefnogaeth i ail-agora ddarparwyd gennym oedd datblygu a dosbarthu'r holl bolisïau a gweithdrefnau y gellid eu golygu, yn cynnwys: polisi Ailagor wedi Covid-19; Asesiad Risg, Polisi Cau Dros Dro, arweiniad ar grwpio/swigod a llawer mwy. Fe wnaeth y clwb hefyd archebu cyflenwadau glanhau ychwanegol, Offer Diogelu Personol (PPE) a rhanwyr ystafelloedd i fodloni'r ysgol eu bod yn lleihau i'r eithaf y risg o drosglwyddo Covid-19 yn lleoliad y clwb. Daeth cost cyfarpar o'r fath - ar amcangyfrif o bron £3,000 - â heriau ariannol pellach i'r Clwb yma. Rydym ar hyn o bryd yn cynorthwyo Tywyn i geisio cael hyd i ariannu pellach i ateb y costau annisgwyl hyn.

Wrth symud ymlaen, mae'r Clwb yn y sefyllfa ffodus o fod ag arian i'w galluogi i barhau'n ddiddyled wrth iddynt ailadeiladu eu capasiti, ac maent yn llawn cyffro yn eu bwriad i ddal ar eu taith gan ddarparu'r gofal plant allysgol gorau posibl i'r plant yn eu cymuned. Yn rhan o'r broses hon mynd ati i ailedrych ar yr Asesiad Gofal Plant Allysgol (OSCA), a'r Cynllun Gweithredu unwaith y bydd y clwb wedi ailagor yn llawn.

Edrychwn ymlaen at ddal i gefnogi Tywyn Kids' Club yn ystod gweddill tymor ein Prosiect Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol, a gobeithio ymhell i'r dyfodol.





## Clwb Cyn ac Ôl-ysgol Beech Tree, Ysgol Gynradd Drury, Beech Road Drury, Bwcle, CH7 3EG

### Ynghylch Clwb Allysgol, Clwb Cyn ac Ôl-ysgol Beech Tree




Mae Clwb Cyn ac Ôl-ysgol Beech Tree yn darparu gofal plant Cyn ac Ar Ôl Ysgol i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Drury. Maen nhw hefyd yn darparu gofal amlapiol i'r plant sy'n mynychu dosbarth Meithrin yr ysgol. Mae Clwb Allysgol, Clwb Cyn ac Ôl-ysgol Beech Tree wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ofalu am uchafswm o 61 o blant o dan 12 mlwydd oed. Mae'r lleoliad yn gweithredu fel SCE ac mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yng ngofal Ern Dorans. Mae'r lleoliad yn cynnal eu gofal o borthdy a adeiladwyd i'r pwrpas ar dir yr ysgol.

### Y gefnogaeth a ddarparwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Yn ystod Pandemig Covid roedd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ffynhonnell amhrisiadwy o ran llawer o'r ddogfennaeth ar Covid/ ffurflenni newydd / polisïau newydd yr oedd eu hangen arnom. Roedd lefel ac ansawdd a roddodd Cath yn benigamp. 10/10 yn bendifaddau. Roedd dim ond gallu ffonio Cath a siarad drwy'r problemau yr oeddwn i'n eu hwynebu yn gysur gwirioneddol. Does dim nad yw hi'n ei wybod!




### Buddiannau'r gefnogaeth

Roedd gwybod bod Cath ar gael o hyd ar ben arall y ffôn yn ffynhonnell dda iawn o gysur pan oeddwn yn ansicr ynghylch sut i symud ymlaen o ran rhai materion. Rwyf wedi gallu symud ymlaen o ran materion problemus yn llawer cynt gyda chefnogaeth Cath. Rwyf wedi argymell Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i arweinydd Clwb Ôl-ysgol arall yr wyf yn ei nabod; un nad yw wedi derbyn yr un lefel o gefnogaeth â mi, ac sy'n ei chael hi'n anodd iawn ar yr adeg bresennol.

## Tina Jones, MBE - Meithrinfa Ddydd Tiny Tots, Prestatyn, Sir Ddinbych LL19 8RL

### Ynghylch Meithrinfa Tiny Tots

Fi yw perchennog, deiliad a rheolwr a pherson cofrestredig Meithrinfa Ddydd Tiny Totls, sy'n feithrinfa gofal dydd llawn ym Mhrestatyn, Sir Ddinbych. Rwyf wedi bod yn rhedeg Tiny Tots er 48 o flynyddoedd, ac yn 2002 ces fy anrhydeddu ag MBE am fy ngwasanaeth i'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae Tiny Tots wedi ei chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 86 o blant o dan 12 mlwydd oed ac mae ar agor bum niwrnod yr wythnos, o 7.00yb hyd 6.00yh.

Ym Meithrinfa Tiny Tots mae gennym Glwb Gofal Plant Allysgol ar y safle, sy'n cynnwys y Clwb ,Ben's Adventure Club. Mae Clwb Allysgol Tiny Tots a Ben's Adventure Club yn cyflenwi gofal ôl-ysgol a gwyliau, a hefyd glwb bore Sadwrn, sydd wedi dod yn boblogaidd iawn. Prif ffocws y clwb yw sicrhau bod gan yr holl blant gyfle i chwarae, cael hwyl a mwynhau llawer o weithgareddau yn yr awyr agored. Boed yn lawog, yn wyntog neu'n heulog, mae bob tro blant hapus, â gwên ar eu hwynebau, yn mynychu yma. Maent yn ddiwedd wedi bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau llawn cyffro a hwyl dros yr haf, a'r cyfan yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar y plant.

Rydym hefyd yn cyflenwi clwb gofal plant allysgol yn Ysgol Gynradd Trelawnyd, yn Sir y Fflint, ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol. Enw'r clwb ôl-ysgol yw Trelawnyd Fun Club; y mae wedi ei gofrestru ar gyfer 24 o blant ac ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener: ar gyfer clwb brecwast o 7.45 i 9.00 yb, a'r clwb ôl-ysgol o 3yh gyd at 6yh drwy gydol y flwyddyn ar wahân i'r gwyliau banc. Yn ystod gwyliau'r ysgol mae'r plant yn dod i'r feithrinfa yn Tiny Tots i fynychu'r clwb gwyliau.

### Cefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Ym mis Awst 2020 penderfynais adnewyddu ein haelodaeth o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gan fod ein Clwb Allysgol, sy'n partneru â Ben's Adventure Club, wedi ehangu. Ro'n i'n gwybod y gallai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs aroio imi a'm staff y cyngor, yr arweiniad, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth ddiweddaraf i barhau i gyflenwi cyfleuster gofal plant a chwarae o ansawdd da yn fy meithrinfa.

Daeth cyfle i gyflwyno tendr am gael darparu gofal plant yn yr ardal leol, gan roi'r cyfle i mi ehangu fy musnes. O ganlyniad i'm profiad o gyflenwi gofal plant dros nifer o flynyddoedd, a'r amserau anodd iawn yr oedd effaith pandemig Covid-19 yn ei chael ar leoliadau gofal plant, penderfynais y byddwn yn cwblhau'r broses dendro.

Edrychais ar gwestiynau a gofynion y tendr a meddwl y byddwn yn cysylltu â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i weld a allent roi rhywfaint o gymorth i mi. Gan fy mod wedi fy lleoli yn



Sir Ddinbych, Gogledd Cymru, roeddwn yn hynod falch y byddai modd i Sandra Welsby, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Gogledd Cymru, fy nghefnogi.

### Effaith pandemig Covid-19

Gan ein bod yn dal o dan effaith pandemig Covid-19 a Sandra'n gweithio o gartref, gwnaeth hithau'r penderfyniad mai'r ffordd orau o'm cefnogi fyddai drwy broses cam-wrth-gam drwy alwadau ffôn, e-byst a chyfarfodydd Zoom.

### Cefnogaeth gam-wrth-gam

Gan fod y tendr ar-lein fe wnaethom roi osod y cyfleuster mynediad-ar-y-cyd ar y system fel y gallem ill dwy gyrchu cwestiynau'r tendr ac adolygu'n gyson y gwaith a oedd yn cael ei gwblhau.

Rhoddodd Sandra gyngor ac arweiniad imi ar y cwestiynau a'r hyn yr oeddent yn chwilio amdano.  Rhoddodd Sandra dasgau i mi eu cwblhau gyda'n Swyddog Hyfforddi ar gostau ac effaith TUPE; hyn yn ogystal ag adolygu ein cynllun busnes a'n hadolygiad ansawdd gofal. Trefnwyd cyfarfod arall gyda Sandra i edrych ar y gwaith yr oeddwn wedi ei gwblhau a'r cwestiynau pellach a oedd i'w hateb.  Gweithiodd y broses gam-wrth-gam hon yn dda.

Cynhaliwyd un cyfarfod terfynol dros y ffôn dim ond i wirio bod yr holl gwestiynau wedi'u hateb ac i ddilysu'r tendr cyn gwasgu'r botwm cyflwyno. Fe wnes gwblhau'r tendr gyda'r raddfa amser a osodwyd, ac roeddwn mor ddiolchgar am gefnogaeth Sandra yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

### Camu 'Mlaen

Dwi'n wirioneddol obeithio y byddwn ni'n llwyddiannus gyda'r tendr.  Mae Sandra'n dweud wrthyf y bydd yn dal i weithi gyda ni ym Meithrinfa Tiny Tots fel aelod o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gwblhau Asesiad Gofal Plant Allysgol i edrych ar unrhyw newidiadau y gallaf ei wneud i wella ansawdd, cynaliadwyedd a chadernid ein clybiau allysgol, a mynd i'r afael ag unrhyw fannau y gellir eu gwella.

### Sylw gan Tina Jones, Perchennog Meithrinfa Tiny Tots

*"Mae cefnogaeth Sandra wedi bod yn amhrisiadwy, ac ers y tendr bu pethau'n anodd iawn. Byddaf yn fythol ddiolchgar am gael ei harbenigedd hi yn y maes hwn.*

*Gobeithio, ac os enillwn y tendr yma, y bydd modd i Sandra ein helpu i wneud bidiau am gymorth ariannol i wella'r ddarpariaeth ac i allu cyflenwi'r safon uchel o ofal plant ac addysg y cawn ein hadnabod amdano."*

## Clwb Enfys Cyf., Clwb Allysgol Conwy

### Y Gefnogaeth a roddwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Yn ystod Pandemig Coronafeirws mae'r gefnogaeth gan Rachel Tustin, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Conwy, wedi bod yn eithriadol o dda. Rydym wedi cael cefnogaeth drwy e-bost, dros y ffôn a chan bostiau Facebook defnyddiol. Mae Rachel wedi bod mor gefnogol ohonom, yn llawn cymorth, a gwnaeth ein helpu drwy amser mor anodd. Rydych bob amser yno ar ein cyfer ac yn ateb cwestiynau yn gyflym iawn, gan roi gwybodaeth ac esboniadau da hefyd.

Rydym yn teimlo'n lwcus iawn fod gennym berthynas mor dda â chi ac ni fyddem yn petruso rhag eich argymell i unrhyw un sy'n rhoi cychwyn ar glwb ôl-ysgol newydd.

Rydym wedi cael cefnogaeth Rachel o'r dechrau, yn ôl ym mis Mawrth pan fu'n rhaid i ni gau'r clybiau gan gadw dim ond y Feithrinfa Ddydd ar agor; fe gawsom help ac arweiniad ar y broses Saib Swydd, ac mae'r Ebyst a'r postiau Facebook wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Mae galwadau ffôn i gadw mewn cysylltiad a'n calonogi drwy gydol yr adeg wedi golygu ein bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r arweiniad, ac maent wedi rhoi cyfle i ni ofyn unrhyw gwestiynau neu wirio ein bod yn gwneud pethau'n gywir.

Mae Rachel hefyd wedi'n helpu gydag Ailagor wedi Covid-19 gydag asesiadau risg, polisïau, a hyd yn oed llunio rhestrau gwirio y gall staff y clybiau eu defnyddio mewn partneriaeth gyda'r Cylch a Mudiad Meithrin.

### Manteision aelodaeth, a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Manteision y gefnogaeth a gafwyd fel aelod, gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a'r Swddog Datblygu Busnesau Gofal Plant:

Ymweliadau wyneb yn wyneb rheolaidd, amhrisiadwy gan Rachel, y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant dros Gonwy; fe wnaethom weld eisiau'r rhain yn ystod Covid ac edrychwn ymlaen at eu hailddechrau eto, ond mae'r gefnogaeth ffôn ac e-bost wedi bod o werth mawr i ni drwy gydol yr adeg.

Ebyst yn diweddaru ynghylch unrhyw newidiadau i'r arweiniad neu unrhyw beth a allai effeithio ar Ofal Plant drwy gydol y Pandemig.

Mae'r templedi Polisi wedi bod yn ardderchog ac wedi arbed llawer o amser i ni wrth ailagor y lleoliadau sydd mewn ysgolion.

Mae aelodaeth o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn rhoi gwerth da iawn am yr arian a byddwn yn eu hargymell i unrhyw un sydd am agor Clwb Ôl-ysgol.

Sylwadau a dderbyniwyd gan y staff yn Clwb Enfys Cyf. yn dilyn ymweliadau gan Rachel, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Conwy.

Comments received from the staff at Clwb Enfys Ltd. following visits from Rachel Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Childcare Business Development Officer, Conwy.

**Diolch gymaint am eich help, fel bob tro.**

**"Ry'n ni'n falch iawn o fod yn rhan o gymdeithas ardderchog, rydych chi i gyd yn rhyfeddol ac yn gymaint o help hefyd, yn cynnig cyngor cyflym ac effeithlon."**

**"Does dim byd yn ormod o waith i unrhyw un ohonoch chi, ac er mod i'n boen (dwi'n gwbod mod i!!!) ry'ch chi'n dal yma i'm helpu. Ac yn enwedig yn yr adegau anodd yma, sy'n golygu llawer. Byddwn i'n annog pob busnes bach o'n math ni i ymuno â Clybiau, mae'r manteision yn enfawr!!"**

**Mae wedi bod yn wych, diolch gymaint am eich holl help; byddwn i ar goll hebddoch chi!**

**Diolch am eich amser a'ch cefnogaeth gyson, mae'n golygu llawer.**





# BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU

## Llywodraethant a Chefnogaeth Busnes i elusennau o fewn yn Sector Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar

Mae llywodraethant dda yn sylfaen i lwyddiant elusennau. Sut ydych yn strwythuro elusen i gynnig gofal plant fel Elusen Gorfforedig? A pham fyddech yn ystyried gwneud hyn?



Gall llywodraethant dda tanategu popeth mae elusen yn ei gwneud – ond gall llywodraethant wael gadael yr elusen yn agored i benderfyniadau annoeth, ymchwiliad rheoleiddiol, ac mewn achosion difrifol, atebolrwydd ariannol neu hyd yn oed atebolrwydd troseddol.

Un o wersi a ddaeth yn sgil y pandemig yw bod cyfansoddiad elusen wir o bwys. Yn ogystal â chyfyngu ar rwymedigaethau'r ymddiriedolwyr, mae Strwythur Corfforedig Elusennol (SCE/CIO) hefyd yn darparu sicrwydd i arianwyr bod unrhyw nawdd a rhoddir yn mynd at elusen sydd â dulliau diogelu mewn lle i warchod y nawdd a chynigir.

O fewn y maes gofal plant mae yna lwyth o strwythurau cyfundrefnol, ond mae nifer o sefydliadau elusennol yn sefydlu eu hunain heb ystyried y manteision o ddod yn SCE. Am nifer o flynyddoedd mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ei aelodau trwy adolygiad o'u strwythurau llywodraethu, a thrwy ddatblygu cyfansoddiad sy'n cyfyngu ar atebolrwydd unigolion. Mae'r sefyllfa gyfreithiol yn glir: nid yw elusen anghorfforedig yn gorff cyfreithiol, ac felly ymddiriedolwyr yr elusen (y corff rheoli) sy'n derbyn cyfrifoldeb dros rwymedigaethau'r elusen. Gall hyn adael ymddiriedolwyr yn bersonol atebol am ddiffyg yn asedau'r elusen, os yw'n methu talu ei rhwymedigaethau.

Gall ddod yn SCE ymddangos yn broses anodd. Mewn ymateb, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Elusennau I sicrhau bod y sefydliadau a weithiodd ochr yn ochr â ni i sefydlu cyfansoddiad, memoranda ac erthyglau yn profi taith ddidrafferth o fod yn anghorfforedig i fod yn gorfforedig.

Yn ystod y cyfnod clo mae ein Tîm Llywodraethant wedi:

**E-bostio bob un o'n darparwyr nid er elw i gynnig cefnogaeth; ac yna weithio gyda'r darparwyr i:**

- Ddiweddaru'r hen gyfansoddiad a'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau
- Archebu dogfennau gan y Comisiwn Elusennau
- Gofrestru elusen/SCE newydd
- Gwblhau'r cofrestriad AGC (newidiadau i archwiliadau/ardystiad meddygol)
- Uwchlwytho dogfennau perthnasol

**Gwybodaeth ychwanegol a rannwyd:**

- Dal cyfarfodydd rhithwir rhwng aelodau ac ymddiriedolwyr, CCC a CCA
- Pleidleisio a chymryd cofnodion yn ddigidol
- Llacio ar ofynion y Comisiwn Elusennau
- Canllawiau Comisiwn Elusennau Covid-19
- Ymestyniadau i gyfrifon/TAR
- Cefnogaeth Cyfraith Cyflogaeth – ACAS & cyflafareddu
- TAR & Chyfrifon Dyledus

Dros yr wythnosau diweddaraf ar ben yr holl aelodau sydd wedi ymgorffori mae 3 sefydliad anghorfforedig wedi newid eu meddyliau, ac wedi iddynt dderbyn cefnogaeth gan ein swyddog llywodraethant maent wedi cofrestru SCE newydd ac uwchlwytho'r holl ddogfennau a'r cofrestriad elusen. Mae cofrestriad AGC yn dal i fod ar waith, a darparwyd cefnogaeth dros e-bost.




(Teimlai'r 3 lleoliad fod y sefyllfa bresennol wedi amlygu pa mor fregus oedd yr ymddiriedolwyr yn ariannol).

Nodwedd bwysig o'n gwaith yw helpu byrddau gwirfoddol i ddeall rhwymedigaethau cyfreithiol a chyfrifoldebau trefniadol, ond nid dyna derfyn ein gwaith. Rydyn yn gwirio'n rheolaidd bod yr SCE wnaethom gefnogi yn parhau i weithredu'n unol â gofynion y comisiwn elusen, gyda staff yn gwirio cydymffurfiad o ran ffeilio dogfennau gyda'r Comisiwn Elusen a Tŷ'r Cwmnïau. Gwneir y gwirio hyn achos hawdd yw methu dyddiad terfyn ym mhrysurdeb bywyd beunyddiol.

Cwblheir 10 cofrestriad SCE newydd ers Ebrill 2020, gyda thystysgrifau AGC a s105 trosglwyddo caniatâd yn cael eu darparu yn ôl angen.

Newidiodd 3 sefydliad anghofrestredig/anghorfforedig eu statws i fod o dan reolaeth llywodraethwyr yr ysgol.

Danfonwyd gwybodaeth at 169 o leoliadau elusennol yn rhoi gwybodaeth ar grantiau oedd ar gael I'w cefnogi'n ariannol, gyda 48 o'r rheini yn derbyn cyfanwm o £143,450 o nawdd gan y Moondance Foundation.  Allan o'r 48 cais llwyddiannus bu'n rhaid i ni atgoffa 15 lleoliad bod angen diweddaru eu cyfrifol fel mater o frys; sy'n ategu ein pwynt mai sicrhau statws SCE I elusennau yw'r pwynt cychwyn, a rhan o'n perthynas parhaus yw'r gefnogaeth darparwn sy'n eu cynorthwyo I gynnal y statws.

"Diolch am eich cyngor anhygoel. Mae wedi bod yn amser anodd sydd wedi fy herio i'r eithaf. Heblaw amdanoch chi, pwy a ŵyr ble fyddwn i?"

"Dydw i ddim yn gwybod be fyddwn i wedi gwneud heboch chi. Rydym yn symud ymlaen yn araf ac yn betrusgar, ond yn symud ymlaen yr un fath. Mae ymddiriedolwyr newydd yn ymuno, rydym yn newid "swyddogion" I osgoi gwrthdaro, a SCE newydd... Byddaf yn clodfori eich gwasanaethau cefnogi."

"Yn bennaeth ysgol sydd newydd gymryd reolaeth o ddarpariaeth cyn-ysgol roedd angen llawer o gefnogaeth arnaf, a fuodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gyda fi ar bob cam o'r daith, yn ymateb i ymholiadau ar yr un diwrnod. Rydych chi'n dîm anhygoel ac rydw i'n gwerthfawrogi popeth."

"Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch yn ddiffuant i'r tîm llywodraethant am eu cefnogaeth barhaus anhygoel wrth iddynt gefnogi ein newid cyfansoddiadol. Roedden nhw yna ar bob cam i gynnig cyngor a chefnogaeth, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw."






## Prosiect Iach ac Actif yn Cefnogi Teuluoedd gyda Gweithgareddau Corfforol yn ystod y Cyfnod Clo

Cychwynnodd grwpiau Prosiect Iach ac Actif Blynyddoedd Cynnar Cymru ym mis Chwefror 2020. Pan newidiodd Covid-19 ein cynlluniau bu'n rhaid i ni adnabod ffordd amgen o orchfygu'r heriau a wynebwyd gan y prosiect.

Mae 2020 yn flwyddyn ddigynsail. Cawn ein hatgoffa'n ddyddiol o'r pandemig, ond yn gynharach yn y flwyddyn roedd rhannau o Gymru hefyd yn wynebu'r heriau o lifogydd lleol a rhanbarthol.

Ym mis Chwefror 2020, er rhai heriau i amserlen y prosiect, i deithio ac argaeledd cyfleusterau, cychwynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gweithio â dau grŵp newydd - un yng Nghasnewydd ac un yng Nglannau Dyfrdwy. Cytunodd y grwpiau hyn, a gafodd eu recriwtio drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar gwlad, i ymuno â ni ar daith i ddatblygu llythrennedd corfforol plant 0-5 oed, ac i wneud gweithgareddau corfforol yn rhan o fywyd teuluol, fel ffordd iachus a holistig o gefnogi datblygiad plant ifanc. Roedd ein perthynas gyda thros 40 o deuluoedd yn dechrau ffynnu, ac roedd yr adborth derbyniasom yng nghylch y daith ar y cyd yn bwerus iawn.

Yna, ym mis Mawrth, peidiodd popeth. Ni chaniateir i ni ddod â grwpiau o bobl ynghyd i gymdeithasu mewn ffordd ryngweithiol, ac roedd yn rhaid i ni ailfeddwl cynlluniau sefydlog gyda'r ddealltwriaeth nad oedd yn opsiwn i ffarwelio â'r teuluoedd a disgwyl am y diwrnod byddem yn medru cwrdd unwaith eto.

Gwnaeth ein staff Iach ac Actif, gan gynnwys ein sefydliad partner sy'n darparu'r prosiect, Welsh Gymnastics, cydweithio i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i ymwneud â rhieni. Deuthum I ddealltwriaeth gall y cyfnod clo gael effaith andwyol ar gynnydd rhai teuluoedd oedd yn gwarchod, gan adael plant oedd heb fynediad at ardaloedd awyr agored yn fwyfwy eisteddol.

Trwy ein sianeli cyfrwng cymdeithasol, https://www.facebook.com/WelshActive a <https://twitter.com/WelshActive>, parhaodd ein cydweithwyr i gysylltu â rhieni. Trwy'r sianeli hyn danfonasom weithgareddau datblygiad corfforol byddai'n galluogi rhieni i barhau i chwarae a'u plant, ac i gefnogi eu datblygiad corfforol gan ddefnyddio syniadau ac adnoddau oedd ar gael o fewn y mwyafrif o gartrefi.

Roedd yn galonogol tu hwnt i weld bod nifer sylweddol o'r teuluoedd a gysylltodd â ni ym mis Chwefror wedi parhau mewn cyswllt, yn ymuno â ni ar-lein ac yn darparu adborth am yr adnoddau wrth fynd. Ymhellach i hyn, mae rhieni yn rhannu eu hadborth drwy'r dull casglu data'r prosiect. Bydd y data a chasglwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn amhrisiadwy dros y misoedd dilynol, wrth i ni ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r ffaith bydd angen i gryn amser mynd heibio cyn y byddem yn medru cynllunio digwyddiadau a gweithgareddau heb feddwl am Covid-19.

Unwaith mae'n bosib i ni wneud felly byddem, o fewn y canllawiau, yn parhau i gwrdd grwpiau ac i ddarparu'r sesiynau a hwyluswyd oedd yn rhan o'n cynnig cychwynnol Iach ac Actif, fel y gwnaethon ni yn ein digwyddiad 'ail-lansiad' yng Nghasnewydd.

### Parhau'r sgyrsiau gyda'n haelodau drwy symud i fforymau ar-lein

Yn draddodiadol mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cynnal digwyddiadau i'n haelodau ymhob rhan o Gymru drwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad i'r pandemig penderfynwyd symud y sgyrsiau hyn i fforymau ar-lein. Roedd hyn yn bwysig i'r Prif Weithredwr newydd a oedd, hyd at yr haf, wedi cysylltu ag aelodau drwy ohebiaeth ysgrifenedig yn unig.

Ym mis Mehefin a Gorffennaf trefnwyd a chynhaliwyd fforwm aelodau gan Blynyddoedd Cynnar Cymru drwy'r platform 'Teams'. Mewn ymateb i'r pandemig penderfynodd Blynyddoedd Cynnar Cymru agor y fforymau aelod i'r rhan nad yw'n aelodau. Derbyniwyd ceisiadau i ymuno â'r fforymau gan staff Awdurdodau Lleol, staff y consortia rhanbarthol a staff o sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Dechreuodd y symudiad i fforymau ar-lein ar ddydd Mercher Mehefin 10fed, gyda 5 grŵp aelodaeth yn cytuno i rannu eu profiadau o weithio yn ystod y cyfnod clo, yn darparu gofal i blant weithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed. Y syniad oedd iddynt rannu eu mewnwelediad gyda'r sector ac i hysbysu eraill ynghylch y camau roedd rheolwyr y lleoliadau wedi rhoi ar waith i sicrhau bod y lleoliadau yn gweithredu o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yn bleser gennym groesawu cyflwyniadau gan y lleoliadau isod, gyda mwy na chwe deg o bobl yn gwrando ar:

- **Rachel's Playhouse – Hirwaun**
- **Coed Derw Nursery – Llanelli**
- **SNAP Playgroup – Sir Benfro**
- **Osborne Nursery – Casnewydd**
- **Abacus Day Nursery – Abertawe**

Rhannodd y lleoliadau eu profiadau, cadarnhaol a negyddol, a siaradodd yn agored am yr heriau a'r hwyl o weithio gyda phlant yn ystod y pandemig. Heriau cyffredinol a wynebwyd gan staff oedd: sut i addasu rhai adnoddau i gynnal iechyd a hylendid, sut i wella'r trefnau glanhau er mwyn sicrhau bod adnoddau a gofodau ar gael i wahanol grwpiau, a sut i weithredu'r grwpiau a chynghorwyd ar y pryd mewn modd cyson.

Roedd yn galonnog i glywed gan yr holl leoliadau bod y plant oll wedi ymateb mewn ffordd gadarnhaol a setlo i'r drefn newydd, megis golchi dwylo ar gyrraedd, yn syth. Wrth gyfarfod anghenion yr holl ddysgwyr eglurodd staff y lleoliadau eu bod wedi arbrofi gyda defnydd technoleg i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a fuodd hyn yn llwyddiant. Uchafbwyntiau eraill oedd clywed ac ymateb i leisiau'r plant wrth gynllunio'r chwarae a chyfleoedd dysgu, a chlywed oedolion yn dweud bod y lleoliad yn teimlo fel 'y lleoliad mwyaf diogel i fy mhlant' yn ystod y pandemig.

Yn dilyn y digwyddiad hwn cynhaliodd Blynyddoedd Cynnar Cymru drafodaeth rhwydwaith ar ddydd Mercher Mehefin 24ain. Trefnwyd I hyn ddigwydd cyn i'r sector gofal plant ailagor, fodd bynnag yn y pen draw digwyddodd deuddydd ar ôl i'r Prif Weinidog ganiatáu i'r sector agor unwaith eto. Roedd y gynulleidfa ychydig yn llai o ganlyniad, ond roedd y sgwrs yn dal i fod yn ddefnyddiol gyda'r lleoliadau yn rhannu syniadau newydd am ddefnydd effeithiol o'r ardaloedd tu allan, a gweithio gyda'r grwpiau yn unol â chanllawiau mewn amryw o gyd-destunau.

Ar ddydd Iau Gorffennaf y 9fed cynhaliodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sgwrs gyda Greg Botrill.

**Coming up…**

**Play in early years childcare and education**

Join us in conversation with
**Greg Botrill**

on **Thursday 9th July (6:30 – 7:30pm)**
**FREE EVENT**



To find out more about Greg visit http://www.canigoandplaynow.com/
and his Play School TV channel https://youtu.be/aPtXZUJ0qzo - broadcasting daily!

Mae Greg yn hyrwyddwr brwd o chwarae yn y blynyddoedd cynnar, ac o greu addysg gyda'r plentyn yn ganol iddi. Siaradodd â chynulleidfa o fwy na 60 o westeion, yn cynnwys aelodau a'r rhai nad yw'n aelodau, am gysyniad o chwarae ar y cyd ('co-play') lle mae oedolion a phlant yn chwarae gyda'i gilydd. Wrth gyd-chwarae rôl yr oedolyn yw cynnal diddordeb y plant ym mhwyntiau allweddol chwarae, heb gymryd rheolaeth a phenderfyniadau oddi wrth y plentyn.

Ymateb i rwystrau'r pandemig oedd y syniad o symud fforymau aelodau ar-lein. Rydym wedi dysgu o'r profiadau hyn, fodd bynnag cadarnhaol yw'r ffaith bod gweithredu ar lein yn ein galluogi i weithredu'n hyblyg, lleihau teithio a darparu profiad cyffredin i bobl ym mhob rhan o Gymru. Yn ganlyniad, ac wrth ystyried yr heriau sy'n wynebu ni oll yn 2020, rydym am barhau i gynnig cyfleoedd i rwydweithio trwy blatfformau digidol i'n haelodaeth. Dengys y pandemig yr angen i ni ddysgu a datblygu sgiliau technoleg newydd er mwyn ail-greu'n llwyddiannus y rhwydweithio a'r cymdeithasu rydym yn mwynhau yn rhan o'n gwaith. Rydym wedi dysgu sut i orchfygu'r rhwystrau cychwynnol, sef yr ofn o gyflwyno ar-lein (o'n cartrefi). Rydym wedi dysgu sut i ddygymod â'r 'llawenydd' o gael 'gwestai' ifanc neu anifeiliaid anwes yn ymuno â'r cyfarfodydd, ac mae'r digwyddiadau 'It'll be all right on the night' ysbeidiol yn ein hatgoffa o'r angen i wenu, chwerthin ac ymateb i'r heriau annisgwyl a digynsail hyn.

## Cefnogi Policy ac Arweiniad Llywodraeth Cymru: Dehongliadau ymarferol i gefnogi lleoliadau wrth ymateb i ddogfennaeth y Llywodraeth

Gwelwyd ymatebion cyflym i bolisi a chanllawiau ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Chyrff Rheoleiddiol wrth ymateb i bandemig 2020, a hynny er mwyn diogelu pawb o fewn ein cymunedau. Gan does gan yr un ohonom yn fyw profiad o fynd i'r afael â phandemig mae nifer o'r rheolau, egwyddorion ac ymarferion wedi eu creu wrth i ni ddysgu mwy am y risgiau a daw yn sgil y firws.

Yn anochel, o safbwynt rheolwr lleoliad mae yna adegau lle'r oedd yr 'arlwy' o wybodaeth yn ddigon i ddanto, dehongli a'i rhoi ar waith. Ar ben hynny, ar ddechrau'r pandemig cafwyd nifer o sgyrsiau emosiynol iawn gan fod pobl yn bryderus ynglŷn â gwneud y peth iawn wrth ddiogelu plant a staff tra'u bod yn y lleoliadau.

Mewn ymateb i geisiadau gan reolwyr lleoliadau am gymorth wrth reoli eu lleoliadau, gweithiodd rheolwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru gyda'i gilydd i greu dau adnodd syml a hygyrch i gefnogi rheolwyr a'u cyfeirio at y wybodaeth a pholisïau byddai angen arnynt wrth ail agor y lleoliad, neu wrth iddynt ymestyn darpariaeth tu hwnt i ofalu am blant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed, wedi iddynt dderbyn caniatâd i wneud hyn gan y Prif Weinidog.

Y ddogfen gyntaf a chynhyrchwyd oedd 'rhestr gwirio ail-agor'. Pwrpas y ddogfen oedd arwain rheolwr lleoliad drwy'r dogfennau a pholisïau oedd angen iddynt adolygu neu addasu er mwyn sicrhau bod y gwaith papur yn gyfredol. Ar ben hynny, byddai'n sicrhau y rhennir polisïau gyda rhandeiliaid allweddol gan gynnwys rhieni a staff.

Yr ail ddogfen oedd templed Asesiad Risg dibynadwy ond cynhwysfawr, gyda chanllawiau'n amlinellu'r pethau oedd angen ystyriaeth gan reolwyr yn sgil diweddariad o'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

I'r rhai ohonom sy'n gweithio o fewn maes polisi ac sydd gyda'r amser i ddarllen a dehongli'r holl ddogfennau a rhyddhawyd o Ebrill hyd Fedi, mae'r neges yn un glir: mynegai rheolwyr lleoliadau a staff sy'n brin o amser bod hi'n anodd iawn cadw'n gyfredol â'r holl wybodaeth a danfonwyd atyn nhw. Nod Blynyddoedd Cynnar Cymru wrth greu'r dogfennau oedd sicrhau y cyfeirir rheolwyr at y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru, a bod gwybodaeth a dolenni amherthnasol yn cael eu chwynnu. Ar yr un pryd, pwrpas y dogfennau oedd sicrhau bod gan ein haelodau'r holl newidiadau ar waith. Ein bwriad o hyd yw cefnogi Llywodraeth Cymru a sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol a chanllawiau gweithredol y Llywodraeth yn cael eu gweithredu dros y wlad.

Cadarnhaol oedd yr ymateb gan ein haelodau. Fel bob un o bartneriaid Cwlwm, mae ein hymrwymiad i gefnogi polisi Llywodraeth Cymru yn barhaus ac yn rhan o’n cynnig aelodaeth.  Mae gwybodaeth, profiad ac arbenigedd ein timau yn golygu y gallem ni ddehongli’r wybodaeth a ddaw gan wneuthurwyr polisi a’i rhannu gyda’n haelodau i gynnig eglurder a chysondeb.

Fel dywedodd un rheolwr lleoliad:

Lleolir y ddarpariaeth o fewn neuadd eglwys, ac un o’r amodau o ail agor ym mis Medi a ddaeth gan ein henwad oedd bod yn rhaid i ni gwblhau Asesiad Risk I Fwrdd yr Henuriaid. Rhaid I mi gyfaddef pan glywais hynny roedd yn destun gorbryder, a doedd gen i ddim syniad ble i gychwyn arni, ond gyda’r rhestr gwirio a’r templed asesiad risg roedd y gwaith yn llawer haws.



We used the pre-opening checklist to highlight issues that needed addressing and then filled in the Risk Assessment. We sent a completed copy of the risk assessment to our development officer and she read it over for us and suggested some amendments. Thankfully, the elders were happy with the Risk Assessment and the setting was allowed to open.

Defnyddiasom y rhestr gwirio i amlygu problemau, ac yna llenwasom ni’r Asesiad Risg a danfon copi draw at ein swyddog datblygu iddi ei ddarllen ac awgrymu newidiadau. Roedd yr henuriaid yn hapus gyda’r asesiad a chawsom ganiatâd i agor eto.

Llaw ar fy nghalon, heblaw am y templed ni fyddwn wedi gwybod lle i gychwyn. Mae’r lleoliad yn parhau i gwblhau’r asesiad risg ac yn cyfeirio ato’n ddyddiol.

O fewn cynllun strategol Blynyddoedd Cynnar Cymru yw ein hymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru’r sicrhau bod polisïau sy’n ymwneud â’r blynyddoedd cynnar yn cael eu cylchredeg ymhlith a’u deall gan bawb o fewn y sector. Yn amlwg, roedd yn gadarnhaol i ni dderbyn y fath ymateb i’n hymagwedd i rannu a symleiddio polisïau allweddol. Mae’r gallu i wneud hyn yn dangos gwerth ein partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru wrth gefnogi sector gofal plant Cymru.

# PACEY Cymru


Yn ystod y cyfnod heriol hwn mae PACEY Cymru wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy, gywir, hygyrch a diweddar ar gael i'r sector.

Roedd hyn yn cynnwys datblygiad o dudalennau'n benodol i Gymru ar PACEY Spotlight on Coronavirus, a sicrhau bod tudalennau Cymru a Lloegr â gwybodaeth sy'n berthnasol at anghenion pobl broffesiynol ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Rydym wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, partneriaid Cwlwm, yr Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau cysondeb yn ein hymagwedd a dulliau o weithio. Rydym wedi lobio, herio a chodi cwestiynau fel bod angen, ar bob mater sy'n effeithio ar y sector. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchiad y Mesurau Diogelu mewn lleoliadau plant. Canlyniad hyn yw sector gwybodus sy'n hyderus yn eu gallu i wneud penderfyniad, ond yn fodlon ceisio cymorth pe bai angen.

Roedd materion ariannol gan gynnwys trafodaethau cytundebol ac ymholiadau yn uchel ar yr agenda, ac roedd y rhain yn amseroedd heriol i ddarparwyr a rhieni fel ei gilydd. Cychwynnodd y Competition and Markets Authority (CMA) ymchwiliad i'r sector blynyddoedd cynnar ar ddiwedd mis Ebrill. Gweithiodd PACEY yn agos gyda'r CMA ynghyd a'n cyfoedion yn y sector, sef y National Day Nurseries Association (NDNA) a'r Scottish Childminding Association (SCMA) i ddarparu tystiolaeth ar gymhlethdod materion ariannol yn y sector blynyddoedd cynnar.

Cymerodd y CMA amser i wrando er mwyn deall y pwysau aruthrol oedd ar ddarparwyr, a chafwyd cydnabyddiaeth o hyn yng nghyd-destun cyfraith defnyddwyr. Cyflwynwyd cyngor gan PACEY yn ystod y cyfnod clo (pan oedd gofyn i bob lleoliad



cau i bawb heblaw am blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol) a wnaeth yn eglur yr hyn oedd yn deg ac yn rhesymol i ddisgwyl yn nhermau cefnogaeth gan rieni, a gwyddom fod y mwyafrif o'n haelodau wedi dilyn y cyngor hwn. Roedd yn dda i weld y CMA yn cymryd y penderfyniad i ddarparu cyngor cefnogol i'r sector yn hytrach na gweithredu yn ein herbyn.


Ynghyd â phartneriaid Cwlwm mae PACEY wedi amlygu'r angen am gefnogaeth ariannol i'r sector, ac wedi lobio am gefnogaeth ariannol i'r sawl nad oeddent yn gymwys ar gyfer cynlluniau'r DU. Canlyniad hyn oedd bod nifer o ddarparwyr gofal plant yn medru cael mynediad at gynllun grant busnes yn ogystal grant darparwyr gofal plant. Mae'r ddau gynlyn yn benodol i Gymru ac yn fodd o sicrhau bod y mwyafrif llethol o leoliadau gofal plant â mynediad at ryw fath o gefnogaeth ariannol yn ystod y cyfnod. Y broblem fwyaf cyfredol yw'r angen ar leoliadau am gefnogaeth ariannol yn ystod cyfnodau cau gorfodol. Gall hyn ddigwydd yn achos haint, neu'n fwy penodol yn achos gofalwyr plant, pan fod angen iddynt hunan ynysu ar ôl i rywun asymptomatig o fewn y cartref cael ei adnabod yn bwynt cyswllt ar gyfer person sydd wedi derbyn canlyniad prawf positif. Bydd hyn yn broblem barhaus yn ystod y gaeaf ac mae'n fater o gryn ansicrwydd a phryder i'r sector.

Roeddem yn y sefyllfa ffodus o fod wedi lansio ein hyfforddiant cyn-gofrestru i'r rhai sy'n darparu gofal plant yn y cartref yn yr hydref 2019, a chyda hynny roeddem gennym opsiynau ar gyfer dysgu ar-lein. Golygodd hyn roedd fodd i ni addasu ein prosesau'n gyflym i sicrhau nad oedd rhwystr i'r rhai oedd am ddod yn ofalwr plant cofrestredig neu'n nani gymeradwy. Gyda lansiad AGC ar-lein a'i ymagwedd arloesol at ymweliadau ac arolygiadau rhithwir, roedd fodd i ni barhau i gofrestru a chymeradwyo darparwyr a leolir yn y cartref yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd negeseuon gan nifer a ddwedodd eu bod nhw'n defnyddio'r cyfnod clo i symud ymlaen gyda'u cynlluniau i gofrestru neu gael eu cymeradwyo, gan fod ganddyn nhw ychwaneg o amser neu roedd eu sefyllfa bersonol wedi newid. Yn ystod y cyfnod Ebrill-Mehefin 2020 gwelwyd 12 gofalwr plant newydd yn cofrestru a 12 gofalwr yn cael eu cymeradwyo o dan y cynllun gwirfoddol. Gostyngiad yw hyn mewn cymhariaeth â'r chwarter blaenorol, ond mae'n gadarnhaol i weld darpariaeth newydd yn y cyfnod heriol hwn.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi mynegi pryder ynglŷn â'r gostyngiad yn niferoedd gofalwyr plant, ac mae'r tuedd yma wedi parhau dros y misoedd diwethaf. Cafwyd 56 yn dadgofrestru rhwng Ebrill a Mehefin, i'w gymharu â 14 yn ystod y chwarter diwethaf. Gwyddom o holiadur bach diweddar fod COVID-19 a'r sefyllfa cafwyd rhai o'r gofalwyr plant eu hunain ynddi ar ddechrau'r cyfnod clo wedi effeithio ar benderfyniad rhai ohonyn nhw i ddadgofrestru. Byddem yn parhau i amlygu'r gogwydd pryderus i Lywodraeth Cymru, ac wrth symud ymlaen byddem yn edrych ar sut i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae'n galonogol i weld bod 85% o'r holl leoliadau gofal plant a chwarae a thus 90% o leoliadau gofalwyr plant yng Nghymru wedi ail agor ac yn darparu gwasanaethau gofal plant a chwarae unwaith eto. Cefnogwyd y lleoliadau yma gan PACEY wrth iddyn nhw gymryd y penderfyniad i ail agor, ac rydym yn ymwybodol bod y gwasanaethau hyn yn debygol o edrych a theimlo'n wahanol i sut wnaethon nhw yn ôl ym mis Mawrth, fodd bynnag ymddengys y darparwyr yn fwy hyderus ac maent yn ymddwyn yn broffesiynol er gwaethaf yr heriau. Dylid cofio nad yw defnydd ystadegau o amgylch lleoliadau sydd heb ail agor yn rhoi darlun llawn o'r sefyllfa, a ni ddylent gael eu defnyddio ar ben eu hunain. Mae nifer o leoliadau yn gweithio ar gynhwysedd llai nag arferol, ac mae nifer yn gweld cynaladwyedd yn her barhaus.

## Claire, gwarchodwr plant cofrestredig



Mae Claire wedi bod yn warchodwr plant cofrestredig o Gaerdydd ers 2006, â'u phlant ei hunan yn awr yn oedolion ifanc yn byw gartref.  Mae Claire hefyd wedi mynd ati i ddysgu Cymraeg, tra bydd yn ymgymryd â hyfforddiant di-dâl, CAMAU ar gyfer darparwyr gofal plant gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

### Ailagor

Caeodd Claire o fis Mawrth tan fis Mehefin gan nad oedd yn gofalu am weithwyr allweddol a chan nad oedd am ychwanegu unrhyw deuluoedd newydd yn ystod y cyfnod hwn.  Ar gyfer ailagor ar Fehefin 22 roedd yn rhaid iddi wneud rhai penderfyniadau anodd i leihau nifer y plant y mae'n darparu ar eu cyfer a lleihau nifer y plant sy'n mynychu o wahanol deuluoedd.  Yn awr y mae'n gofalu am ddim ond pedwar grŵp o frodyr/chwiorydd.  Er bod hyn wedi effeithio'n ariannol ar ei gwasanaeth, dyma'r lefel y mae'n teimlo'n gyffyrddus â hi, a'r un y gall ei rheoli'n ddiogel, gan roi'r sylw fod angen iddi gymryd 'agwedd o safbwynt busnes yn hytrach nag o'i chalon'.

### Cadw'n gyfredol a gweithio gyda rhieni

Mae diweddaru rhieni wedi bod yn rhan bwysig o'i phroses ailagor, lle defnyddiodd Becyn Cymorth a Chwestiynau Cyffredin PACEY er gwybodaeth a chefnogaeth. A hithau'n ei chael yn anodd heb wybod beth i'w wneud, a deall yr holl fesurau yr oedd angen eu cymryd, cafodd fod y wybodaeth glir a oedd ar gael gan PACEY yn rhoi iddi'r hyder i wneud yr hyn oedd yn iawn i'w wneud. Mae'r polisïau a'r asesiadau risg wedi eu diweddaru, a newyddlen newydd wedi ei rhannu â'r rhieni er mwyn iddynt oll fod yn glir ynghylch y newidiadau y mae wedi eu gwneud i'r lleoliad a'r trefniadau yn eu lle i ofalu am eu plant. Mae contractau digidol PACEY wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol, ac mae Claire wedi adnewyddu'r holl gontractau gyda'u rhieni. Gyda'r fformat digidol newydd, cytunwyd a llofnodwyd bob un yn syth gan y rhieni, ac maent wedi eu storio ac yn hawdd eu cyrchu ar borth digidol PACEY.

### Yn ôl i'r ysgol

Ers i'r ysgolion ailagor ym mis Medi, roedd Claire yn bryderus ynghylch sut y byddai'n ymdopi â gollwng a chasglu graddedig o ddwy ysgol ar wahân. Ond mae'r ysgolion wedi bod yn barod iawn eu cymwynas wedi i warchodwyr plant sy'n casglu plant o'r ysgol gysylltu â nhw. Mae'r ysgol wedi trefnu slotiau amser gollwng fel y gall pob gwarchodwr plant ollwng a chasglu'r holl blant ar unwaith, gan osgoi unrhyw gyfnodau aros hir.

### Rheoli salwch

Un her sy'n a wynebir ar hyn o bryd yw dychweliad peswch ac anwydau, a sut i wybod a ydynt yn symptomau Covid-19 ai peidio, ynghyd â chadw'n gyfamserol o ran y gofynion profi a hunanynysu. Mae Claire wedi rhannu ei pholisi Eithrio oherwydd salwch gyda'r rhieni y mae â pherthynas dda a chefnogol â nhw. Mae Claire wedi ei sicrhau, petai plentyn yn dangos unrhyw symptomau y bydd y rhieni'n ei diweddaru ar hyn, neu'n dod i gasglu eu plentyn yn syth petai symptomau'n datblygu tra bydd yn ei lleoliad hi.



### Hunanynysu

Esboniodd Claire pa mor bryderus yw ynghylch angen posibl i hunanynysu, heb wybod pa mor aml y byddai'n rhaid iddi wneud hyn. Mae cymaint o wahanol senarios, naill ai o ran y plant sy'n derbyn ei gwarchodaeth a'u teuluoedd, neu ei theulu ei hun â symptomau Covid neu'n cael eu hadnabod yn berson cyswllt, neu mewn swigen gydag achos cadarnhaol. Dywed Claire *"Petawn i'n gwybod mai dim ond am 2 wythnos a fyddai gallwn adfer yn ariannol, ond rwy'n bryderus rhag ofn y bydd angen i mi hunanynysu dro ar ôl tro"*. Mae Claire yn ychwanegu na fyddai hyn ddim ond yn effeithio'n ariannol ar ei gwasanaeth, byddai'n achosi straen posibl i'w rhieni ynghylch argaeledd ei gwasanaeth, yn tarfu'n fawr ar y plant, a'r graddau y byddai'n eu hansefydlogi. Byddai hefyd yn effeithio ar bob aelod o'i theulu gartref. Mae'n gwybod y bydd yn bwysig bod ag arweiniad clir i'w ddilyn, a'i rannu â'r teuluoedd, a diolchodd i PACEY am y wybodaeth y maent yn ei darparu, sy'n rhoi iddi'r hyder i wneud hyn.

### Taith dysgu Cymraeg

Un peth y mae Claire wedi ei gael yn gadarnhaol eleni yw ei thaith dysgu Cymraeg. Wrth iddi ofalu am blant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith sy'n mynychu ysgol cyfrwng-Cymraeg, mae Claire wedi defnyddio'r amser pan oedd ar gau i barhau i ddysgu Cymraeg drwy gynllun CAMAU, gan barhau i gyrchu gweminarau cefnogaeth iaith-Gymraeg PACEY Cymru, rhai y mae'n edrych ymlaen atynt, ac sydd wedi gweithio'n berffaith iddi o ran amser. Mae'r pynciau oll yn bethau y gall eu defnyddio o ddydd i ddydd, ac mae ganddi hefyd adnoddau i'w hargraffu sydd hefyd yn ei chefnogi i gynllunio.

## Vikki ac Ashwyn, gwarchodwyr-plant cofrestredig



Mae Vikki wedi bod yn warchodwr-plant cofrestredig ers 15 mlynedd a'i gŵr Ashwyn am 11blynedd, yn eu cartref yn Abertawe.  Maent wedi ysgrifennu am eu profiadau o ailagor eu lleoliad yn gynharach yn y flwyddyn, ac wedi diweddaru PACEY Cymru ar eu profiadau yn dilyn ailagor ysgolion.

### Asesiadau risg

Wrth ddechrau ailagor gwnaeth Vikky ac Ashwyn rai newidiadau allweddol i'w lleoliad i leihau i'r eithaf y risg o haint lle mae'r plant yn chwarae, yn unol â'r arweiniad presennol i ddiogelu a rhoi rhyder i'r plant, y rhieni a nhw eu hunain.  Roedd hyn yn cynnwys adolygu eu trefn lanhau, sicrhau stoc ddigonol o Offer Diogelu Personol (PPE) ac iechyd a hylendid yn y lleoliad.  Fe wnaethant yn ogystal gwtogi ar y mathau o deganau a chyfarpar, gan gael gwared â theganau meddal sy'n llochesu germau a chynnwys teganau a oedd yn hawdd eu glanhau.  Mae ganddynt gynllun casglu a gollwng i'r rhieni a'r plant i sicrhau pellhau cymdeithasol.

Maen nhw hefyd yn gwneud y gorau o chwarae yn yr awyr agored yn y lleoliad. Dywed Vikki, *"Ry'n ni'n teimlo'n ddigon hyderus yn y gofal yr ydym yn ei ddarparu, rydym yn gweld eisiau ein dyddiau allan arferol gyda'r plant, ond dyw hi ddim fel petai'n effeithio arnyn nhw gan ein bod yn treulio llawer o amser allan yn yr ardd. Un o'r prif bwyntiau gwerthu wrth fod yn warchodwyr plant yw'r cyfnodau a'r profiadau cyffrous yn yr awyr agored y gallwn eu darparu ar gyfer y plant. Mae'r rhieni'n deall nad yw hyn bob tro'n bosibl i'r un graddau ag yr oedd cyn Covid-19."*

### Cyfathrebu â'r rhieni

Mae cyfathrebu da, parhaus wedi bod yn allweddol, yn atgyfnerthu pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest, o'r ddwy ffordd, rhyngddynt a'u teuluoedd. Maent wedi rhannu'r polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf gyda'r teuluoedd, ond wedi cael bod angen iddynt roi amser i egluro ar lafar unrhyw newidiadau ac ateb unrhyw gwestiynau o du'r rhieni. Gan na all rhieni mwyach gael mynediad i'w lleoliad, y mae wedi gwneud defnydd o'r ffôn a WhatsApp. Maent yn cydnabod bod gan fod teulu set unigryw o amgylchiadau y mae angen iddynt gymryd cyfrif ohonynt, ac y gall unrhyw frigiadau haint a chau eu lleoliad gael effeithiau dilynol enfawr ar eu teuluoedd a'u gwasanaeth. Dywed Vikki "Rydym yn lwcus i fod â theuluoedd hyfryd i ddarparu gofal ar eu cyfer, er nad yw hynny'n cymryd bant y straen o orfod siomi rhieni, a rhan ohonyn nhw'n dibynnu arnom ni i allu dal i weithio".

### Ailagor ysgolion

Yn fuan wedi i'r ysgolion ailagor, esboniodd Vikki bod gan ei merch besychiad a bod angen felly iddi gael ei phrofi am Covid-19. Golygodd hyn fod y lleoliad wedi bod ar gau am ddau ddiwrnod hyd nes i'r prawf ddod yn ôl yn negyddol. Roedd hwn yn amser arbennig o anodd gan fod rhai o'r plant ddim ond newydd ddechrau setlo i lawr yn y lleoliad a doedd yr aflonyddu yma ddim i'w ddymuno; ni ellid fodd bynnag ei osgoi. Roedd Vikki'n teimlo bod y profiad yma wedi eu paratoi nhw ar gyfer unrhyw frigiadau haint yn y dyfodol, ac roeddent yn gallu dangos i deuluoedd eu bod yn gweithio o fewn canllawiau'r llywodraeth a'u polisïau eu hunain.

Mae Vikki ac Ashwyn hefyd wedi cael amserau casglu a gollwng graddedig ysgolion yn anodd eu rheoli fel gwarchodwyr plant; er hynny maent yn gwerthfawrogi bod gan ysgolion eu set eu hunain o heriau, a'u bod wedi ceisio gweithio gyda'r ysgolion wrth reoli diogelwch y plant yn eu gofal.

### Lles meddyliol plant

Mae iechyd meddyliol a lles emosiynol tymor hir y plant y maent yn gofalu amdanynt yn bryder. Mae'r byd gwarchod plant yn amgylchedd teuluol iawn ei naws, ac nid yw'r plant iau wedi cael cyfle i ffarwelio â rhai o'r plant hŷn sydd wedi dechrau mynychu'r ysgol. Mae Vikki'n disgrifio hyn yn bwerus iawn fel math o broses 'alaru' dros y plant hyn, sydd wedi datblygu'n sefyllfa heriol.

Mae un plentyn yn arbennig wedi sylwi ar y drefn lanhau newydd ac yn gofyn *'pam ydych chi'n rhoi cadach dros bopeth o hyn'?'*. Arweiniodd hyn Vikki i ystyried ffyrdd o reoli glanhau ychwanegol er yn sensitif cadw'n sensitif i'r plant a'u teimladau. Doed hi ddim am i'r plant fod yn poeni'n ddiangen am ledaenu germau.

### Cefnogaeth PACEY

Mae Vikki ac Ashwyn wedi cyrchu cefnogaeth PACEY drwy gydol y pandemig, yn enwedig wrth geisio cyngor ynghylch ynysu o ganlyniad i wyliau un teulu o dramor. Maen nhw'n teimlo bod PACEY bob tro'n eu cyfeirio at yr arweiniad perthnasol, ac y gellir ymddiried ynddynt i 'ymladd dros hawliau gwarchodwyr plant'.  Mae'r cyfnod clo diweddar wedi rhoi cyfleoedd i gyrchu hyfforddiant perthnasol a Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) drwy PACEY, yn enwedig y cyrsiau clyfar byr ar y Blynyddoedd Cynnar.


### Effaith ariannol

Mae Vikki and Ashwyn yn cydnabod bod  pryderon ynglŷn â phob agwedd ar warchod plant yn awr.  Yn ariannol, y pryder yw sut y byddant yn ymdopi â chyfnod clo arall, neu a fydd yn rhaid iddynt gau eto petaen nhw eu hunain neu unrhyw aelodau o'u teuluoedd yn dangos symptomau.  Yn ychwanegol at hyn, gan iddyn nhw gymryd toriad o dalu rhai o'u biliau cartref yn ystod y cau cyntaf maen nhw'n dal i geisio dal i fyny wedi'r misoedd hynny, ac ag angen rheoli'r arian sy'n mynd allan yn ofalus.

### Edrych i'r dyfodol

Gwarchod plant yw eu busnes teuluol a'u hangerdd, a dywed Vikki na all ddychmygu ei hunan yn gweithio yn unman arall. Wrth edrych i'r dyfodol maent yn credu y bydd yn parhau i fod yn heriol.  Er bod Vikki'n dweud wrthi ei hun eu bod, wedi bod drwy'r holl heriau a fu, yn awr, â'r hyder i wynebu unrhyw beth a ddaw, nid ydynt yn siŵr a fyddai eu busnes yn goroesi cyfnod clo llawn arall, a heb fod yn gallu gofalu am blant. Mae hyn yn achosi straen enfawr, a dywed Vikki *"mae bod yn warchodwyr plant yn waith mor hyfryd, mae meddwl am fethu â gwneud gwaith rydym ni wrth ein bodd yn ei wneud yn ein dychryn!"*

# Gwarchodwyr Plant Seedlings









Mae Kelly wedi bod yn warchodwr plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers 2017 ac wedi rhannu'n flaenorol ei phrofiadau yn flaenorol â PACEY ar sut y mae wedi rheoli ei dechreuwyr newydd mwyaf diweddar yn ei lleoliad, a sut y mae hyn wedi effeithio ar ei busnes.

Dros fisoedd yr haf wrth i gyfyngiadau Llywodraeth Cymru lacio roedd modd i Kelly ddarparu sesiynau setlo i mewn yn ei gardd. Gwahoddodd blant newydd a phresennol i ddod ar wahanol achlysuron, a chael sesiwn chwarae byr y tu allan er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r lleoliad unwaith eto. Roedd Kelly'n poeni am fod y plant wedi bod i ffwrdd am gymaint o amser, ac roedd yn teimlo y byddai pawb ar eu hennill o gael dull tynerach o ailagor ym mis Medi.

Hefyd, fe gymerodd Kelly y cyfle i wneud gwelliannau i'r lle sydd ganddi y tu allan ac mae wedi darparu cegin fwd a chysgodfan i'r plant.

### Ailagor mis Medi

Yn anffodus, wedi dim ond wythnos a hanner o agor ym mis Medi, gofynnwyd i Kelly ynysu a chau ei gwasanaeth gwarchod plant o ganlyniad i ddisgybl a oedd yn swigen grŵp ei mab yn yr ysgol brofi'n gadarnhaol am Covid-19. Disgrifiodd deimlo'n 'ofidus ac wedi cael ergyd drom iawn' wrth orfod cau wedi bod ar agor am ychydig ddyddiau'n unig.

Ffoniodd Kelly PACEY Cymru cyn gynted ag y gwnaeth yr ysgol gysylltu â hi, gan ei bod am gadarnhau ei bod yn cymryd y mesurau cywir. Cynhgorwyd Kelly i ffonio Iechyd Cyhoeddus Cymru a dilyn eu cyngor. Roedd Kelly'n werthfawrogol o'r sicrwydd caredig a roddwyd gan staff PACEY a'r diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd ei bod yn 'neis bod â rhywun arall ar ben arall y ffôn a all weld pethau o'n safbwynt ni'.


### Cefnogaeth PACEY Cymru

Wedi i Kelly gysylltu â'r tîm yn PACEY Cymru a rhoi manylion o'r ffordd y gofynnwyd iddi gau ei gwasanaeth, cysylltodd PACEY Cymru â Llywodraeth Cymru gan ofyn am fwy o eglurder ac arweiniad i warchodwyr plant mewn sefyllfa o'r fath. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd arweiniad yn nogfen FAQs for Wales PACEY yn cadarnhau y dylai gwarchodwyr plant gysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod eu sefyllfa unigol gyda nhw. Rhannwyd y wybodaeth yma'n uniongyrchol gyda Kelly a thîm gofal plant yr Awdurdod Lleol (ALl), yn ogystal â thrwy ein newyddlenni a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

### Edrych i'r dyfodol

Er bod Kelly wedi ystyried y gweithdrefnau petai angen iddi hi neu aelod o'i theulu ynysu oherwydd Covid-19, ni wnaeth ystyried yn llawn yr effaith ar ei busnes petai plant ysgol eraill yn profi'n gadarnhaol Bydd Kelly'n diwygio ac yn diweddaru ei pholisïau, asesiadau risg a gwybodaeth i rieni yn hyn o beth, er mwyn bod yn barod ar gyfer digwyddiadau posibl o'r fath yn y dyfodol.

Pryder mwyaf Kelly yw gorfod cau eto er mwyn hunanynysu, a'r a allai hyn ei gael ar ei theuluoedd. Er eu bod yn gefnogol y tro cyntaf, roedd yn rhaid i rai gymryd absenoldeb di-dâl o'u gwaith i ofalu am eu plentyn. Os bydd yn rhaid iddi gau eto, mae'n poeni y bydd rhieni'n edrych at ffynhonnell fwy dibynadwy o ofal plant. Mae'n ystyried ffyrdd y gall leihau costau eu gwasanaeth, a bydd yn trafod hyn gyda'i theuluoedd. Mae Kelly'n teimlo, er mwyn cadw gwarchodwyr plant i barhau i weithredu, y byddent ar eu hennill o dderbyn incwm cynaliadwyedd i'w cefnogi dros gyfnodau cau. Dywed Kelly, *"Fe wnes gofrestru 3 blynedd yn ôl, ac mae wedi cymryd amser hir i mi adeiladu fy musnes; dwi ddim am orfod dechrau eto. Dwi'n dwlu ar y swydd yma, ond mae'n anodd, gyda thipyn o waith ychwanegol yn awr gyda'r glanhau". Mae'n golygu ymrwymiad ychwanegol hefyd gan ei theulu ei hun."*



# NDNA Cymru

National Day Nurseries Association

*Brighter thinking for early years



Ym mis Mawrth wrth i'r wlad fynd dan glo, roedd llawer o feithrinfeydd yn teimlo eu bod wedi cael eu "taflu i mewn i'r dwfn". Roedd y pryderon cychwynnol yn ymwneud â ph'un a ddylid aros ar agor ai peidio, pwy oedd yn cael ei hystyried yn weithiwr allweddol a phryderon am hawliadau yswiriant. Cynigiodd NDNA Cymru gymorth drwy gydol yr amser heriol hwn drwy alwadau ffôn rheolaidd a diweddariadau e-bost.

Trosglwyddwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn i'r sector drwy ddiweddariadau rheolaidd ac ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol NDNA Cymru. Tynnwyd sylw at wybodaeth am grantiau a chyllid, a oedd ar gael i'r sector yn gyflym, gan allugoi meithrinfeydd i wneud penderfyniadau gofalus am eu busnesau.

Wrth i feithrinfeydd ddechrau ailagor yn yr haf, roeddent yn wynebu problemau o ran rheoli heintiau a phellter cymdeithasol. Roedd angen dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu cefnogaeth ac arweiniad a chyflwynodd NDNA weminarau ar sefydlu staff, rheoli heintiau, chwarae dan do ac yn yr awyr agored, ymgartrefu plant newydd, cefnogi lles staff a thrafod sefyllfaoedd trawmatig. Er gwaethaf fod hyn yn ffordd newydd o weithio i'r sector, mynychwyd y rhain gan nifer dda iawn o bobl. Aeth cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd ar-lein a darparodd hyn gyswllt hanfodol i lawer o feithrinfeydd, gan eu galluogi i rannu problemau a'r materion yr oeddent yn eu hwynebu.

Canfuwyd ffyrdd newydd o barhau â hyfforddiant hanfodol ac mae NDNA Cymru wedi datblygu hyfforddiant ar Ystafelloedd Dosbarth Rhithiol Byw (Live Virtual Classrooms), sy'n galluogi math rhyngweithiol o hyfforddiant ar-lein.

Mae hyn hefyd wedi galluogi'r gwaith pwysig ar y Prosiect Gwaith Gofal Plant i barhau, gan gefnogi anghenion gweithlu'r sector wrth iddo symud y tu hwnt i'r pandemig.

Cynhyrchodd NDNA Cymru daflenni ffeithiau i gefnogi meithrinfeydd wrth iddynt ddod i arfer â ffordd wahanol o weithio. Cynhyrchwyd taflenni ffeithiau ar Iechyd a Hylendid, cefnogaeth i reolwyr ac ymarferwyr a Syniadau Da ar gyfer addasu darpariaeth barhaus yn y cyfnod sylfaen. Diweddarwyd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn Gymraeg ac yn Saesneg a chyhoeddwyd Atodiad yn dangos yr holl newidiadau a oedd yn gysylltiedig â Covid 19.



Mae'r cymorth ymarferol hwn wedi ei groesawu gan y sector ac mae wedi galluogi darparwyr gofal plant i weithredu'n ddiogel wrth barhau i roi lles eu staff ac anghenion gofal a datblygiadol y plant yn gyntaf. Mae llawer o berchnogion a rheolwyr meithrinfeydd wedi mynegi eu diolch yn ystod galwadau ffôn ac e-byst gyda staff NDNA Cymru.



*"Mae staff NDNA Cymru wedi bod yn gadarnhaol ac yn gefnogol iawn." Meithrinfa Ddydd Chuckles.*

*"Diolch i NDNA am eich cefnogaeth gyson." – Meithrinfa Little Lambs.*

### Effaith ar Staff

Mae Staff Meithrinfeydd wedi bod yn hollbwysig i ymateb Cymru i'r argyfwng Coronafeirws ac mae rheoli staff a'u cadw'n ddiogel wedi bod yn brif flaenoriaeth i Feithrinfeydd. Mae un Feithrinfa Fawr yn Sir y Fflint wedi cydnabod y byddai sicrhau diogelwch a llesiant eu staff yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar y plant yn eu gofal.

Fe wnaethant ddechrau drwy wneud yn siŵr fod pob aelod o'r staff yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau ar sut y byddai'r feithrinfa'n symud yn ei blaen yn ystod yr argyfwng. Roedd pawb a oedd yn gweithio yn y Feithrinfa'n teimlo eu bod wedi eu 'taflu i'r pen dwfn' ym mis Mawrth, ond hyd yn oed cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau arweiniad, roeddent yn defnyddio eu hasesiad risg i edrych ar bob agwedd ar y gwasanaeth a'r gofal yr oeddent yn ei gynnig i deuluoedd, er mwyn gweld sut y gallent sicrhau y byddai pawb yn cadw'n ddiogel. Roedd y staff unigol yn adnabod eu hystafelloedd a'r plant yr oeddent yn gofalu amdanynt, a chan ddefnyddio'r wybodaeth honno, gallent wneud yn sicr y byddai'r mesurau diogelu angenrheidiol yn effeithio cyn lleied â phosibl ar y plant. Mae'r staff wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth honno i adolygu a diweddaru'r asesiad risg yn gyson.

Er bod rheidrwydd i gadw niferoedd y staff yn isel, er mwyn cydymffurfio â'r rheolau pellhau cymdeithasol ac i helpu yng nghynaliadwyedd y feithrinfa yny dyfodol, gwelwyd yn gyflym y byddai angen o leiaf dau aelod o'r staff ym mhob ystafell. Byddai hyn yn eu galluogi, y naill a'r llall, i gyflenwi ar adegau toriad  ac ymdrin ag argyfyngau bychain heb i aelod arall o'r staff orfod gymysgu yn yr un 'swigen'.  Yn bwysicach na dim, roedd yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gefnogaeth gyson, yn broffesiynol ac yn emosiynol, drwy gydol y dydd,

Roedd Rheolwyr y Feithrinfa'n cydnabod bod newidiadau i'r drefn arferol yn aml yn anodd i'r staff, nifer ohonynt yn ymdrin â'u pryderon a'u gofidiau eu hunain ynghylch y cyfnod clo.  Yn arbennig, gallai'r 'adeg gollwng' fod yn drawmatig i'r plant a'u rhieni (na allent fanteisio ar y gweithdrefnau setlo-i-mewn arferol) ac roedd hyn yn dreth ar yr aelodau hynny o'r staff a fu'n gorfod ymdopi â llif cyson o deuluoedd trallodus. Fe wnaethant sicrhau bod staff yn cael lle i gymryd toriadau ar bellter cymdeithasol drwy wneud defnydd o stafell nad oedd yn cael ei defnyddio fel ystafell staff ychwanegol.



Yn y pen draw, blaenoriaeth y Feithrinfa oedd cadw'r plant yn ei gofal, a'u teuluoedd, yn ddiogel. Drwy drefnu'r staff yn ofalus, roedd modd iddynt leihau i'r eithaf y risgiau a chysuro'r teuluoedd.



Aethant ati i newid trefn yr adegau pryd a oedd yn golygu mai dim ond y cogydd oedd â hawl i fod yn y gegin ac fe fwytaodd y plant eu prydau yn eu hystafelloedd gyda'u grŵp bychan, cyson o ffrindiau. Fe wnaeth y staff gymryd toriadau graddedig, ac aeth rhai mor bell ag i fwyta'u cinio yn eu ceir i osgoi cyswllt diangen ag eraill. Lle'r oedd yn bosibl, ni fyddai'r staff yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a doedden nhw ddim bellach yn rhannu'u car ar eu ffordd i'r gwaith ac yn ôl.  Roedd aelodau o'r staff yn fodlon gwneud y newidiadau hyn am iddynt fod yn rhan o'r broses benderfynu, ac roeddent yn deall pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel.

Gwelodd y Feithrinfa yn gyflym bwysigrwydd eu gweithlu sgilgar a phrofiadol yn cefnogi plant a'u teuluoedd i ymdopi â'r newidiadau angenrheidiol i'r drefn arferol. Drwy gadw'r staff yn rhan o'r trefnu a phwysleisio diogelwch a lles y staff, maent wedi gallu cefnogi'r plant i gyfarwyddo â'r ffordd newydd o wneud pethau a pharhau i ddatblygu mewn amgylchedd diogel a hapus.

## Llesiant Plant

Mae meithrinfa fawr a phrysur yng Nghasnewydd wedi aros ar agor i blant gweithwyr allweddol, ac mae yn awr yn croesawu yn ôl blant eraill i deulu'r feithrinfa. Fodd bynnag p'un a ydynt yn newydd i'r lleoliad ai peidio, yr ystyriaeth bennaf, fel erioed, yw lles corfforol ac emosiynol y plant.

Gwelodd y Feithrinfa yn fuan y gallai'r newidiadau a oedd yn digwydd o gwmpas y planta, ac i'w teuluoedd, gael effaith ddifrifol ar ddiogelwch a datblygiad emosiynol y plant. Roedd gan lawer o'r plant a oedd yn mynychu'r feithrinfa rieni a oedd yn gweithio mewn ysbyty lleol; roedd rhai rhieni hyd yn oed wedi symud allan o'r cartref teuluol i sicrhau diogelwch eu hanwyliaid. Roedd y newidiadau hyn i'w bywydau yn anodd iawn i'r plant eu deall.

Roedd y Feithrinfa'n ffodus fod ynddi ddigon o le a sawl ystafell; golygai hyn y gellid rhannu'r plant yn grwpiau cyson - neu 'swigod' - bach. Roedd y grwpiau bach hyn, bob un yn eu hystafell hunangynhaliol ei hun, yn cael eu cefnogi gan yr un aelodau o'r staff, lle bynnag y byddai hynny'n bosibl; roedd hyn nid yn unig yn gymorth o ran y mesurau ymbellhau cymdeithasol ond hefyd yn rhoi cysondeb a sefydlogrwydd i'r plant. Roedd y newidiadau materol angenrheidiol i'r amgylchedd, megis gorsafoedd golchi dwylo, cymryd ymaith rai o'r adnoddau a newidiadau i'r ffordd y defnyddid yr ardaloedd cyffredin, megis toiledau, yn cael eu hesbonio i'r plant mewn ffordd ddigynnwrf a chysurlon, ac roedd modd edrych i mewn i'r pethau hyn yn ddiogel mewn grwpiau bychain.

Roedd y plant yn cael eu hannog i fod y tu allan gymaint â phosibl, a gwnaeth y Feithrinfa newidiadau i'r ardal allanol i gefnogi hyn. Rhoesant yno ardaloedd ychwanegol dan orchudd ar gyfer chwarae y tu allan ym mhob tywydd, darparu mwy o gadeiriau y tu allan. Fe wnaethant gynllunio gweithgareddau i annog dysgu a datblygu, yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant, ond roedd y pwyslais yn awr ar les emosiynol y plant. Rhoesant i'r plant gyfleoedd i edrych i mewn i'r newidiadau a oedd yn digwydd o'u cwmpas drwy chwarae rôl, gwisgo i fyny, storïau a gweithgareddau eraill. Fe wnaethant hefyd roi amser i sgwrsio ac i drafodaethau grŵp a allai gael eu harwain gan y plant. Fe wnaeth y staff sgilgar wrando ar y plant ac ateb eu cwestiynau ynghylch y feirws.

Wrth i'r cyfnod clo lacio ac i'r plant eraill ddechrau dod yn ôl i'r Feithrinfa, fe wnaethant ddefnyddio sawl strategaeth i gefnogi'r plant a'u teuluoedd. Anfonwyd ffotograffau o'r staff yn gwisgo Offer Diogelu Personol (PPE), a newidiadau i'r lleoliad, at y teuluoedd cyn i'r plant ddychwelyd neu ddechrau yn y feithrinfa. Roedd y plant presennol yn esbonio'r newidiadau yn dda iawn i'w ffrindiau newydd ac roedd y Feithrinfa'n gefnogol i hyn.

Fe wnaeth sgil a phroffesiynoldeb y staff a'r rheolwyr sicrhau bod llesiant a datblygiad emosiynol y plant yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnod o argyfwng cenedlaethol.

## Clymau Teuluol!

Mae un feithrinfa yng Ngogledd Cymru erioed wedi bod yn falch o'i chysylltiadau agos â'r teuluoedd sy'n cyrchu ei gwasanaethau. Roeddent eisoes yn defnyddio technolegau megis ap teuluol i ddiweddaru rhieni a gofalwyr ynghylch y pethau yr oedd eu plant yn eu gwneud pan oeddent yn y lleoliad. Ond pan drawodd Covid-19 daeth cadw cysylltiadau agos â'r rheini yn bwysicach fyth. O ganlyniad i feithrinfeydd cyfagos yn cau, agorodd y feithrinfa ei drysau i nifer o blant gweithwyr allweddol newydd, a gwelodd yn fuan fod ar y rhieni a'r gofalwyr angen y sicrwydd a'r gefnogaeth o wybod bod eu plentyn yn derbyn gofal da.

O ganlyniad i'r pandemig daeth yn angenrheidiol cyflwyno mesurau ac arferion rheolaidd newydd a fyddai wedi bod yn annerbyniol mewn adeg fwy normal. Ni chaniateid i ymwelwyr gamu i mewn i'r lleoliad, a hyn yn cynnwys rhieni a oedd yn gorfod aros wrth y drws ffrynt wrth gyrraedd a chasglu. Roedd yn rhaid dwyn i ben y gweithdrefnau setlo-i-mewn arferol a oedd yn rhoi cyfle i'r plentyn, y rhieni a'r staff ddod i adnabod ei gilydd mewn amgylchedd Yn ogystal, roedd angen hysbysu'r rheini'n gyson ynghylch gweithdrefnau newydd y feithrinfa ynghylch symptomau a salwch.





Roedd 179 o deuluoedd yn gysylltiedig â'r feithrinfa, nid gweithwyr allweddol bob un. Roedd ar rieni a gofalwyr a oedd yn dilyn y cyngor i gadw'u plant adref yn ogystal angen cefnogaeth barhaus, ac roedd yn bwysig bod y plant yn cadw cysylltiadau cryf â'r feithrinfa yn ystod adeg mor bryderus. Anfonodd y feithrinfa Becynnau Dysgu Gartref i'r holl deuluoedd; roedd y rhain yn cynnwys ffotograffau o'r lleoliad a'r staff, a gweithgareddau i'r teulu cyfan, gan gynnwys hyd yn oed y brodyr a'r chwiorydd nad oedd yn mynychu'r lleoliad. Fe wnaethant ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddiweddaru rhieni'n gyson ar unrhyw newidiadau, i awgrymu syniadau ar gyfer gweithgareddau gartref ac i anfon postiau cadarnhaol i'r teuluoedd. Unwaith yr wythnos byddai'r tudalennau cyfrwng-cymdeithasol yn mynd yn 'fyw' gan ddangos y newidiadau a oedd yn digwydd yn y feithrinfa, a rhoi cyfle i deuluoedd anfon i mewn 'gwaedd o glod' a sylwadau. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r plant a'r teuluoedd deimlo eu bod yn dal yn rhan o'r feithrinfa er na allent ei mynychu.

Fe wnaethant ddal i ddefnyddio'r Ap Teuluol i roi cyfle i rieni gadw mewn cysylltiad yn ddyddiol ac i wybod gan y feithrinfa sut roedd eu plentyn bob diwrnod. Lle byddai angen mwy o gefnogaeth ar y teulu, byddent yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol drwy neges destun neu alwad ffôn i gynnig cyngor ar hyfforddiant toiled, cefnogaeth ymddygiadol neu weithiau ddim ond gynnig cysur. Wrth i'r cyflog clo lacio maent wedi gweithio gyda'r teuluoedd i roi sesiynau setlo-i-mewn i'r plant sy'n dod yn ôl i'r feithrinfa i'w helpu yn ôl i fywyd y feithrinfa ac i roi tawelwch meddwl i'r rhieni.

Mae'r cysylltiadau agos â'r teuluoedd wedi creu amgylchedd gwirioneddol gefnogol yn y feithrinfa. Mae'r teuluoedd wedi gwir werthfawrogi cefnogaeth y feithrinfa yn ystod yr adeg hynod heriol hon, ac mae'r feithrinfa wedi bod dan ei sang â chardiau a rhoddion i ddweud diolch am y gefnogaeth y mae wedi ei rhoi i'w plant, i'r rheini, y teuluoedd a'r gymuned leol gyfan.

### Bod yn Covid-Ddiogel

Mae cyflwyno mesurau diogelu mewn lleoliad meithrinfa a gwneud yn siŵr fod y plant a'r staff yn ddiogel wedi bod yn sialens enfawr i'r sector. Mae un feithrinfa yn Sir Benfro wedi ateb yr her hon i sicrhau bod eu lleoliad mor ddiogel ag y gallai fod ac ar yr un pryd gadw eu hymrwymiad i ofal plant o ansawdd da.

Edrychodd y feithrinfa ar bob rhan o'i ddarpariaeth i lunio asesiad risg manwl. Mae'r asesiad risg hwn yn ddogfen sy'n newid yn gyson ac yn cymryd cyfrif o'r cyngor newidiol o du'r llywodraeth, nifer a gwahanol anghenion y plant yn eu gofal a hyd yn oed y tywydd cyson gyfnewidio! Wedi gwneud y gwaith papur daeth yn glir y byddai angen newidiadau i'r ffordd yr oedd y lleoliad yn rhedeg.

Fe wnaethant ddechrau drwy gynyddu'r mesurau hylendid, nid yn unig sicrhau bod y plant yn golchi'u dwylo['n rheolaidd, ond bod glaniedydd dwylo ar gael ym mhob ystafell. Roedd yn rhaid glanhau ardaloedd cyffredin rhwng pob grŵp o blant a oedd yn eu defnyddio a sefydlwyd gorsafoedd glanhau ym mhob un o'r ystafelloedd fel y gellid glanhau'r adnoddau'n gyflym. Rhaid hefyd oedd storio'r adnoddau mewn ffordd wahanol; defnyddiodd y lleoliad gynwysyddion wedi'u selio i sicrhau mai dim ond y plant o'r grŵp unigol perthnasol a allai eu defnyddio. Roedd yn rhaid cael gwared â rhai o'r adnoddau, megis teganau a defnyddiau meddal gan y byddai'n anymarferol i'w golchi na defnyddio glaniedydd yn am, a chafwyd gwared hefyd ag arddangosfeydd wal a allent lochesu'r feirws. Gwnaed y bocsys teganau'n llai o faint i wrthannog y plant rhag rhannu'r cynnwys â'i gilydd.

Y mae'n amhosibl i blant ifanc ymbellhau yn gymdeithasol oddi wrth ei gilydd na'r oedolion sy'n gofal amdanynt ac roedd yn ollyngdod mawr i'r sector pan gydnabuwyd hyn gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, parhaodd y feithrinfa i roi yn eu lle bolisïau a gweithdrefnau a fyddai'n cadw'r plant mor ddiogel â phosibl. Gosodwyd y plant mewn grwpiau bychain, cyson a barhaodd yr un fath ac a oedd a'r un aelodau o'r staff

bob diwrnod. Nid oedd y grwpiau'n cymysgu nac yn defnyddio'r un adnoddau, ond roeddent yn rhoi cyfle i'r plant feithrin grwpiau cyfeillgarwch a pharhau i ddysgu'r sgiliau cymdeithasol sy'n hanfodol i'w datblygiad.

Gwnaed yr hyn oll yn bosibl drwy broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff y feithrinfa. Roedd gofyn i'r staff fynd ynghylch glanhau'r lleoliad a'r adnoddau yn rheolaidd yn ogystal â goruchwylio'r plant yn agos wrth olchi'u dwylo ac mewn ardaloedd cyffredin. Hyn oll gan gynnal y cyfyngiadau ar bellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd ac wrth gwrs, gan ddarparu amgylchedd diogel a hapus ar gyfer y plant.

Pan aeth Cymru dan glo gyntaf ym mis Mawrth roedd yn ymddangos yn amhosibl y gallai'r sector gofal plant ddal i ofalu am blant a gwneud popeth a oedd ei angen i gyfyngu ar drosglwyddiad y feirws. Mae'r feithrinfa hon wedi dangos ei bod yn bosibl, gyda chynllunio gofalus a gwaith caled y staff, i ddarparu gofal plant o'r ansawdd gorau tra cedwir y plant, eu teuluoedd a'r staff yn ddiogel.



National Day Nurseries Association

*Brighter thinking for early years

www.cwlwm.org.uk

Mae partneriaeth Cwlwm yn cynnwys y sefydliadau isod:


**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS**
Bridge House, Station Road, Llanishen, Caerdydd CF14 5UW
**Ffôn:** 029 2074 1000 **E-bost:** info@clybiauplantcymru.org

**BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU**
Uned 1, Iardy Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd, CF10 5NB
**Ffôn:** 029 2045 1242 E-bost: info@earlyyears.wales

**MUDIAD MEITHRIN**
Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PD
**Ffôn:** 01970 639639 **E-bost:** post@meithrin.cymru

**NDNA CYMRU**
NDNA Cymru, Office 3, Crown House, 11 Well Street, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AE
**Ffôn:** 01824 707823 **E-bost:** wales@ndna.org.uk

**PACEY CYMRU**
The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd CF24 5EZ
**Ffôn:** 02920 351407 **E-bost:** paceycymru@pacey.org.uk